

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

40/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:

30/03/2023

Safbwyntiau'r Gweithlu Ôl-COVID-19

Ailedrych ar y Gwerthuso Proses o Ddeddf
Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
(Cymru) 2014

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-355-3

Safbwyntiau'r Gweithlu ÔI-COVID-19

Ailedrych ar y Gwerthuso Prosesau o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Sarah Wallace,¹ Fiona Verity² a Mark Llewellyn¹

Wallace S, Verity F and Llewellyn M (2023) *Safbwyntiau'r Gweithlu ÔI-COVID-19: Ailedrych ar y Gwerthuso Prosesau o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 40/2023. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/safbwyntiaur-gweithlu-ol-covid-19-ailedrych-ar-y-gwerthuso-proses-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014>.

IMPACT: Gwerthusiad Cenedlaethol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Tim astudio:

Mark Llewellyn, Fiona Verity, Pippa Anderson, Catrin Awoyemi, Nick Andrews, Heulwen Blackmore, Noreen Blanluet, Gideon Calder, Tony Garthwaite, Wahida Kent, Jen Lyttleton-Smith, Alison Orrell, Ceri Phillips, Malcolm Prowle, Jonathan Richards, Roiyah Saltus, Sion Tetlow, Carolyn Wallace and Sarah Wallace.

Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru; Prifysgol Abertawe; Prifysgol Metropolitan Caerdydd; Prifysgol Bangor.



Cardiff
Metropolitan
University



Prif Arweinydd yr Astudiaeth:

Yr Athro Mark Llewellyn¹

Cyfarwyddwr Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, ac Athro Polisi Iechyd a Gofal Prifysgol De Cymru

mark.llewellyn@southwales.ac.uk

¹ [Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru](#), Prifysgol De Cymru:

[Staff WIHSC | Prifysgol De Cymru](#)

² [Yr Athro Fiona Verity – Prifysgol Abertawe](#)

Safbwyntiau'r ymchwilyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Is-adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru

Tabl Cynnwys

1.	Cyflwyniad	3
	Dull.....	3
	Cwmpas a chylch gorchwyl yr adroddiad hwn.....	4
2.	Methodoleg.....	6
	Casglu data.....	6
	Moeseg.....	8
	Dadansoddi data.....	8
	Cyfyngiadau.....	8
3.	Canfyddiadau	10
	Amhariad	10
	Gwydnwch a Blinder	20
	Amlygiad i fregusrwydd systemau gwasanaethau cymdeithasol.....	24
	Arafu a 'cholli tir' wrth roi'r Ddeddf ar waith	31
	Cyflymu ac 'ennill tir' wrth roi'r Ddeddf ar waith	33
	Parhau â'r daith	39
4.	Sylwadau Terfynol	45
	Perthnasedd parhaus egwyddorion y Ddeddf.....	45
	Adferiad	45
	Cyfeiriadau.....	47
	Atodiad 1 – Amserlen cyfweliadau	49

Rhestr Tablau

Tabl 1.1: Pum egwyddor y Ddeddf, a phum maes yr astudiaeth.....	4
Tabl 2.1: Cyfanswm y cyfweleion.....	7

Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
ALI	Awdurdodau Lleol
Astudiaeth IMPACT	Gwerthusiad annibynnol o Weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
Atal ac Ymyrraeth Gynnar	Nod y Ddeddf yw sicrhau bod pobl yn gallu gofyn am yr help sydd ei angen arnynt pan fydd ei angen arnynt i atal eu sefyllfa eu hunain rhag gwaethygu, a bod gofalwyr yn gallu cael cymorth i'w cynorthwyo yn eu rolau gofalu a chynnal eu llesiant eu hunain. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol yn y gymuned i leihau'r cynnydd mewn angen critigol.
Cydgynhyrchu	Nod y Ddeddf yw i bobl gymryd mwy o ran yn y gwaith o gynllunio a darparu eu gofal a chymorth. Mae'n golygu sefydliadau a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw a'u teulu, ffrindiau, a gofalwyr fel bod eu gofal a'u cymorth y gorau y gall fod.
Gwaith Aml-asiantaethol	Nod y Ddeddf yw cryfhau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth i sicrhau bod y mathau cywir o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodeb trosfwaol y Ddeddf yn nodi bod gofyn i awdurdodau cyhoeddus gydwethio a gweithio mewn partneriaeth
Llais a Rheolaeth	Mae Llais a Rheolaeth yn egwyddor o'r Ddeddf sydd â'r nod o roi'r unigolyn a'i anghenion wrth galon eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais iddynt, a rheolaeth dros y canlyniadau a all eu helpu i gyflawni llesiant a'r pethau sydd bwysicaf iddyn nhw.
Llesiant	Nod y Ddeddf yw sicrhau bod llesiant ym mhob rhan o fywydau pobl. Mae llesiant yn fwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y gefnogaeth gywir, bod yn rhan o gymuned gref, cael ffrindiau a pherthnasoedd sy'n dda i chi, a chael hobiau, gwaith, neu ddysgu. Mae'n ymwneud â chefnogi pobl i gyflawni eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth.
P-FE	Gwerthusiad sy'n Canolbwyntio ar Egwyddorion
SERG	Grŵp Cyfeirio Arbenigol Astudiaeth

1. Cyflwyniad

- 1.1 Comisiynodd Llywodraeth Cymru bartneriaeth o academyddion ar draws pedair prifysgol yng Nghymru a chynghorwyr arbenigol i gyflawni gwerthusiad o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel 'y Ddeddf').
- 1.2 Mae'r gwerthusiad cenedlaethol annibynnol – [astudiaeth IMPACT](#)³ – wedi bod yn rhedeg ers mis Tachwedd 2018 ac mae'n cael ei arwain gan yr Athro Mark Llewellyn, Cyfarwyddwr Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru (WIHSC) ym Mhrifysgol De Cymru ochr yn ochr â'r Athro Fiona Verity, Athro Gwaith Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, Prifysgol Abertawe. Mae'r bartneriaeth hefyd yn cynnwys cydweithwyr o Brifysgolion Metropolitan Caerdydd a Bangor a Chanolfan PRIME Cymru, ac fe'i cefnogir gan [Grŵp Cyfeirio Arbenigol Astudiaeth](#) (SERG)⁴ gyda'i dri chyd-gadeiryddion dinasyddion.

Dull

- 1.3 Fel '...rhan o raglen drawsnewid ehangach ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru' (Llywodraeth Cymru, 2013, t.23)⁵ mae'r Ddeddf yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i gynhyrchu 'newidiadau trawsnewidiol' ym mholisi, rheoleiddio a threfniadau darparu gwasanaethau cymdeithasol ar draws Cymru. Mae iddo 11 rhan ac fe'i hysbysir gan bum egwyddor: lles, llais a rheolaeth (sy'n rhedeg 'ar draws asgwrn cefn' y Ddeddf (ibid, t.9), atal ac ymyrraeth gynnar, gweithio aml-asiantaethol a chydgyhyrchu. Yn gysylltiedig ag ef mae rheoliadau a chyfres o Godau Ymarfer.
- 1.4 Ochr yn ochr â'r pum egwyddor, rydym wedi nodi pum maes lle mae egwyddorion y Ddeddf yn 'cwrdd' â'r bobl neu'r sefydliadau y dylai'r Ddeddf fod yn cael effaith arnynt – unigolion sydd angen gofal a chymorth, eu gofalwyr ac aelodau o'r teulu, y cymunedau y maent yn byw ynddynt, y gweithlu sy'n eu cefnogi, a'r sefydliadau sydd â chyfrifoldebau a dyletswyddau i'w cyflawni fel yr amlinellir yn y Ddeddf a'i Chodau Ymarfer cysylltiedig – gweler Tabl 1.1.

³ Mae ffilm ragarweiniol ddwyieithog yn egluro strwythur yr astudiaeth i'w gweld yma: [Ffilm gwerthuso'r Ddeddf / Act evaluation film – WIHSC - YouTube](#)

⁴ I gael rhagor o wybodaeth am y SERG, gweler: [Grŵp Cyfeirio Arbenigol Astudiaeth | Prifysgol De Cymru](#)

⁵ Llywodraeth Cymru (2013).

Tabl 1.1: Pum egwyddor y Ddeddf, a phum maes yr astudiaeth⁶

Egwyddorion	Meysydd
Llesiant	Citizens
Llais a rheolaeth	Teuluoedd a Gofalwyr
Cydgynhyrchu	Cymunedau
Gweithio aml-asiantaethol	Gweithlu
Atal ac ymyrraeth gynnar	Sefydliadau

1.5 Mae ein hastudiaeth gwerthuso yn ei chyfanrwydd yn cynrychioli asesiad annibynnol a gwrthrychol o weithrediad y Ddeddf a'r ffordd y mae wedi effeithio ar lesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a'u gofalwyr, ac ar y system ofal yng Nghymru.

1.6 Mae'r astudiaeth yn defnyddio dull Gwerthusiad sy'n Canolbwyntio ar Egwyddorion (*Principles-Focused Evaluation - P-FE*) Michael Patton, sef dull ar gyfer gwerthuso mentrau sy'n seiliedig ar egwyddorion mewn cyd-destunau cymhleth sy'n 'newid yn gyflym' (2018, t.4). Mae tri chwestiwn canolog y mae'n rhaid eu hateb mewn gwerthusiad P-FE (2018, tt.ix):

1. I ba raddau y mae egwyddorion ystyrlon a gwerthfawr wedi'u mynegi?
2. Os yw egwyddorion wedi'u mynegi, i ba raddau ac ym mha ffyrdd y glynir wrthynt yn ymarferol?

Os cedwir at hyn, i ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae'r egwyddorion yn arwain at y canlyniadau dymunol?

Cwmpas a chylch gorchwyl yr adroddiad hwn

1.7 Ein tasg yn yr adroddiad hwn yw canolbwyntio ar yr ail o'r cwestiynau hynny, a'i ystyried yng ngoleuni profiad y gweithlu yn ystod COVID-19.

1.8 Mae'r adroddiad hwn felly'n adeiladu ar y *Gwerthuso Prosesau*⁷ 'gwreiddiol' a roddodd bersbectif y gweithlu ar weithredu'r Ddeddf cyn COVID-19, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021 yn dilyn gwaith maes yn y tri mis yn union cyn cyfnod cyntaf y cyfnod clo yn ystod y pandemig.

⁶ Darperir diffiniadau ar gyfer yr egwyddorion hyn gan [Gofal Cymdeithasol Cymru](#) ac maent wedi'u cynnwys yng Ngeirfa'r ddogfen hon.

⁷ Llewellyn et al. (2021).

- 1.9 Ar adeg cwblhau'r gwaith maes gwreiddiol hwnnw, wrth gwrs, nid oedd yn bosibl i gyfranogwyr ddeall yr effaith ddofn a pharhaol y byddai'r pandemig yn ei chael ar sawl agwedd ar gymdeithas, ac yn amlwg ar waith y gwasanaethau cymdeithasol. Felly comisiynwyd yr adroddiad ychwanegol hwn gan Lywodraeth Cymru i fyfyrion ar ganlyniadau COVID-19 ar gyfer y broses weithredu sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf.

Strwythur yr adroddiad

- 1.10 Yn y bennod sy'n dilyn, rydym yn rhoi disgrifiad o'r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu'r dystiolaeth y mae'r adroddiad hwn yn tynnu ohoni. Yn dilyn hynny, mae pennod o ganfyddiadau sylweddol yn cyflwyno dadansoddiad thematig o'r data cyfweld a gasglwyd. Mae'r adroddiad yn cloi gyda phennod fer yn myfyrion ar oblygiadau'r dystiolaeth hon i'r egwyddorion sy'n sail i'r Ddeddf.

2. Methodoleg

Casglu data

2.1 Mae'r gwerthuso prosesau hwn yn ystyried safbwynt y gweithlu cyflogedig ar weithredu'r Ddeddf. Fel y nodwyd ym Mhennod 1, casglwyd data ar safbwyntiau'r gweithlu o dan y *Gwerthuso Prosesau* gwreiddiol, a gynhaliwyd yn union cyn y cyfnod clo COVID-19 cyntaf ym mis Mawrth 2020. Cynlluniwyd yr ymarfer presennol hwn i gasglu data sy'n adlewyrchu cyfnod y pandemig. Y pwrpas cyffredinol oedd deall yr effaith a gafodd y pandemig ar weithrediad parhaus y Ddeddf.

Cyfranogwyr a samplu

2.2 Y nod ar gyfer y gwaith presennol oedd dilyn i fyny gyda'r rhai a gymerodd ran yn yr adroddiad gwerthuso prosesau gwreiddiol ar safbwyntiau'r gweithlu. Yn y gwaith gwreiddiol, defnyddiwyd samplu bwriadol i nodi a recriwtio cyfranogwyr. Mae samplu bwriadol yn dechneg sy'n ymwneud ag adnabod a dethol unigolion neu grwpiau o unigolion sydd â gwybodaeth fanwl a/neu brofiad o'r ffenomen o ddiddordeb (Creswell a Plano Clark, 2011). Er mwyn helpu i gyflawni amcan y gwaith hwn (Merriam, 2009), dewiswyd y sampl yn bwrpasol i gynnwys ystod o ardaloedd daearyddol, sefydliadau, a lefelau'r gweithlu.⁸

2.3 Cysylltwyd â phedair ardal awdurdod lleol yng Nghymru (Ardaloedd 1-4) i gymryd rhan yn y gwerthusiad 'gwreiddiol' o'r broses a oedd yn cynrychioli cymunedau Cymru: un yn wledig yn bennaf, un yn drefol yn bennaf, un yn y cymoedd yn bennaf, ac un Cymraeg ei hiaith yn bennaf. Roedd y rhain yn gwasanaethu fel 'astudiaethau achos haenedig' gan gynnwys tair 'lefel' wahanol o'r gweithlu:

- arweinwyr strategol ac uwch reolwyr
- rheolwyr gweithredol
- staff rheng flaen

2.4 Cynhwyswyd gwahanol sefydliadau o fewn y pedair ardal: y sefydliadau statudol (awdurdod lleol a bwrdd iechyd); gwasanaethau a gomisiynir (sectorau annibynnol a gwirfoddol); a strwythurau rhanbarthol (fel byrddau partneriaeth rhanbarthol, byrddau diogelu rhanbarthol, fforymau gwerth cymdeithasol rhanbarthol, byrddau gwasanaethau cyhoeddus).

⁸ I gael rhagor o wybodaeth am samplu gweler Llewellyn et al. (2021), paragraffau 2.5 i 2.9 – [Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014: gwerthusiad proses](#).

- 2.5 Arweiniodd y dull gwerthuso prosesau 'gwreiddiol' 140 o gyfranogwyr, a chymerodd y mwyafrif ohonynt ran mewn cyfweiliadau unigol, ond cyfrannodd rhai trwy drafodaethau grŵp. Cymerodd 41 o arweinwyr strategol ac uwch reolwyr, 41 o reolwyr gweithredol a 58 o staff rheng flaen ran ar draws y pedair ardal.
- 2.6 Ar gyfer y gwaith ychwanegol hwn, aeth tîm yr astudiaeth yn ôl at yr un pedwar awdurdod lleol a gymerodd ran yn y gwerthuso prosesau gwreiddiol ar safbwyntiau'r gweithlu a chyfweld â chynifer o'r un bobl y byddai amgylchiadau'n caniatáu ar eu cyfer. Yr unig wahaniaeth arwyddocaol y tro hwn oedd bod y cyfweiliadau i gyd yn cael eu cynnal ar-lein, gan ddefnyddio Microsoft Teams. Aethom at bob un o'r cyfranogwyr blaenorol, a chytunodd 45 ohonynt i gymryd rhan eto (manylion isod). Nid oedd pob un o'r 140 o gyfranogwyr gwreiddiol yn dal yn eu swyddi a chysylltwyd â'r bobl hynny yn eu rolau yn eu lle, ac nid oedd nifer yn gallu cymryd rhan oherwydd pwysau ar y gweithlu ac ymrwymïadau eraill.
- 2.7 Casglwyd yr holl ddata gan un aelod o'r tîm gwerthuso (Llewellyn) rhwng Ionawr a Mai 2022.

Cyfanswm y cyfweleion

- 2.8 Yn y gwaith presennol, cymerodd cyfanswm o 60 o unigolion ran mewn cyfweiliadau (n=30), neu grwpiau trafod (n=30). Mae Tabl 2.1 yn dangos cyfanswm y cyfweiliadau wedi'u rhannu yn ôl ardal a math o gyfranogwr. Cyfrannodd tri chwarter (n=45) y bobl a gymerodd ran yn yr ymarfer hwn hefyd at y gwerthuso prosesau gwreiddiol:

Tabl 2.1: Cyfanswm y cyfweleion

Ardal	Math o weithiwr			CYFANSWM
	Uwch-reolwr / arweinydd strategol	Rheolwr gweithredol	Staff rheng flaen	
Ardal 1	4	6	0	10
Ardal 2	2	15	2	19
Ardal 3	4	7	0	11
Ardal 4	4	15	0	20
CYFANSWM	14	43	2	60

- 2.9 Roedd y dosbarthiad fesul math o weithiwr ychydig yn wahanol i'r gwaith cynharach. Yn benodol, staff rheng flaen oedd y grŵp mwyaf yn y gwaith cynharach ond dim ond dau a gymerodd ran yn y gwaith presennol. Cyfyngiadau ar ein gallu i ymgysylltu â'r grŵp hwn o weithwyr – o ystyried y ffaith eu bod yn gweithio dan bwysau mawr, mae yna heriau ymarferol sy'n gysylltiedig â gweithio o bell, ac roedd gwahanol bobl mewn swyddi ym mhob un o'r pedair ardal – yn egluro'r rhesymau y tu ôl i hyn. Er gwybodaeth, mae'r rhestr ddangosol o gwestiynau a ddefnyddiwyd yn y cyfweiliad wedi'i chynnwys yn Atodiad 1.

Moeseq

- 2.10 Derbyniodd yr holl gyfranogwyr posibl daflen wybodaeth yn rhoi manylion am yr hyn y byddai eu cyfranogiad yn ei olygu. Cadarnhawyd cytundeb ysgrifenedig neu lafar i gymryd rhan cyn i'r cyfweiliadau/grwpiau trafod ddechrau a rhoddwyd gwybod i'r holl gyfranogwyr am yr hysbysiad preifatrwydd a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr astudiaeth.

Dadansoddi data

- 2.11 Roedd cyfweiliadau/trafodaethau yn cael eu recordio a data ansoddol yn cael ei drawsgrifio gair am air ac yn ddiennw. Dadansoddwyd trawsgrifiadau gan ddefnyddio dadansoddiad thematig. Defnyddiwyd NVivo 12 i drefnu a rheoli'r data a datblygwyd fframwaith newydd o godau i gynrychioli'r data a gasglwyd yn yr ymarfer hwn.
- 2.12 Roedd dadansoddi data yn broses ailadroddol; ymglymerwyd â chodio trawsgrifiadau gan ddau aelod o'r tîm gwerthuso ac roedd yn cynnwys nifer o drafodaethau i adolygu a diwygio'r fframwaith codio a oedd yn datblygu, a themâu.
- 2.13 Cyflwynir canfyddiadau gan ddefnyddio pob un o'r themâu fel is-bennawd neu is-bennawd ychwanegol. Mae pob adran yn cynnwys data o gyfweiliadau a grwpiau trafod. Mae'r manylion ar ddiwedd pob dyfyniad yn cyfeirio at yr ardal, y sefydliad, a'r lefelau y mae'r bobl hyn yn eu cynrychioli (fel y nodir uchod). Mae'r holl enwau, manylion rôl y swydd ac unrhyw wybodaeth adnabod arall wedi'u dileu er mwyn iddynt fod yn anhysbys.

Cyfyngiadau

Fel gydag unrhyw astudiaeth o'r maint a'r cymhlethdod hwn, mae cyfyngiadau i'w nodi. Cryfder allweddol y rhan hon o'r astudiaeth yw'r safbwyntiau ansoddol, manwl yr ydym wedi'u casglu drwy gyfweiliadau a grwpiau ffocws gyda phobl o fewn y gweithlu. Roedd eu dirnadaeth yn bwerus wrth helpu i feithrin dealltwriaeth o effaith

y pandemig arnyn nhw, eu gwaith, eu cydweithwyr, a'r rhai y maen nhw'n darparu gofal a chymorth ar eu cyfer.

- 2.14 Roedd her o ran capasiti wrth estyn allan at awdurdodau lleol i gefnogi'r gwaith hwn. Manteisiodd nifer llawer llai o gyfranogwyr ar y cyfle i gyfrannu at y myfyrdod 'ôl-COVID-19' hwn ar weithrediad y Ddeddf nag oedd wedi gwneud yn flaenorol, am y rhesymau a nodir uchod (gweler paragraff 2.9). Er i ni gyrraedd pwynt dirlawnder data gyda'n sampl, yn anochel nid oedd ehangder a chyrhaeddiad y darn hwn o waith mor helaeth ag ar gyfer y cyntaf.
- 2.15 Yn yr un modd, roedd sampl y cyfranogwyr yn wahanol i'r adroddiad gwerthuso proses gwreiddiol am resymau dealladwy fel y disgrifir uchod (gweler paragraff 2.9). Mae rhai goblygiadau posibl i hyn sy'n werth eu nodi. Yn gyntaf, mae'n bwysig bod yn glir felly nad set ddata hydredol yw hwn yn ei chyfanrwydd – ar gyfer tri chwarter ein sampl roeddem yn gallu trafod sut yr oeddent yn gweld y sefyllfa o ran gweithredu'r Ddeddf cyn ac ar ôl y pandemig, ond nid yw hynny'n wir i bawb. Yn ail, ac oherwydd hyn, mae angen bod yn ofalus wrth ddarllen yr adroddiad hwn, ei ddadansoddiad, a'i gasgliadau ochr yn ochr â'r gwerthuso prosesau 'gwreiddiol' (Llewellyn et al., 2021) – mae'r samplau'n wahanol ac felly nid oes modd eu cymharu'n uniongyrchol.

3. Canfyddiadau

- 3.1 Roedd effaith ddofn a chymhleth COVID-19 ar bobl yng Nghymru a'r ddarpariaeth o wasanaethau cymdeithasol, yn thema fawr a oedd yn rhedeg drwy'r ail gyfres hon o gyfweiliadau gwerthuso prosesau a gynhaliwyd yn gynnar yn 2022, ddwy flynedd i mewn i'r pandemig.
- 3.2 Mae'r themâu a gyflwynir yn y bennod hon yn ymdrin â'r 'amhariad' ar y ddarpariaeth o wasanaethau cymdeithasol a achosir gan COVID-19, y gofyniad i'r gweithlu fod yn wydn a'r blinder dilynol a deimlwyd ar draws y sector. Yna mae'r themâu'n mynd ymlaen i gwmpasu'r ffyrdd y gwnaeth y pandemig amlygu 'breuder system' gwasanaethau cymdeithasol a'r sgil-ffeithiau ar weithredu'r Ddeddf – o ran sut mae hyn wedi cael ei arafu mewn rhai agweddau ac yna'i gyflymu mewn eraill. Mae'r bennod yn cloi gyda dadansoddiad o'r hyn y mae hyn yn ei olygu ar gyfer y 'daith' barhaus o weithredu.

Amhariad

- 3.3 Siaradodd y cyfranogwyr ag emosiwn am rym aflonyddgar COVID-19. Sbardunodd y pandemig sefyllfaoedd yn gyflym gyda goblygiadau i drefniadaeth gwasanaethau cymdeithasol a sut roedd gofal a chymorth yn cael eu darparu. Datblygwyd nifer o is-themâu yn ymwneud ag aflonyddwch o'n dadansoddiad.

Sioc

- 3.4 Yn gyntaf, gellir gweld y sioc a deimlai'r cyfranogwyr o ganlyniad i'r pandemig drwy gydol y cyfweiliadau. Fe wnaeth y cyfranogwr canlynol grisialu anferthedd hyn yn eu sylw: *mae'n debyg bod yn rhaid i ni fel cenedl eistedd yn ôl a mynd "wow, beth ddigwyddodd yno" a dyw hynny ddim wedi digwydd nac ydy. Rydyn ni wedi cyddynnu, "wel gadewch i ni symud ymlaen, rydych chi wedi cael eich tri phigiad, mae angen i chi fyw eich bywyd nawr, tynnwch eich mwgwd i ffwrdd, byw eich bywyd", yn hytrach na "beth ddigwyddodd yno?"* (Rheolwr gweithredol, ALI, Ardal 3).
- 3.5 Mae'r ymdeimlad hwn o sioc a'r angen dilynol i symud yn sydyn a gweithredu mewn ffyrdd newydd yn cael eu cyfleu yn y dyfyniadau isod:

Rargol fawr, os ydych chi'n meddwl, doedden ni ddim yn gwybod dim byd, wyddoch chi, pan gawson ni ein taflu i mewn iddo, nid oedd gennym ni PPE, nid oedd gennym ni'r holl bethau hyn a dwi'n meddwl eu bod nhw wedi mynd ar ewyllys da yn unig (Rheolwr gweithredol, ALI, Ardal 4).

Yn gyntaf ac yn bennaf, rwy'n meddwl mai'r hyn a'n synnodd, yr hyn a'n syfrdanodd ni i gyd rwy'n siŵr yw'r brys a'r ymateb sydd ei angen gyda'r pandemig yn taro. Roedd hynny'n eitha brawychus mae'n debyg, a thros gyfnod o wythnos dwi'n meddwl, aethon ni o ddarparu gwasanaeth ar y safle o dros 250 yn ddyddiol i gau'r gwasanaeth i lawr yn llythrennol ac roedd hynny'n anodd ei wneud am nifer o resymau, yn ymarferol ac yn seicolegol (Rheolwr gweithredol, ALI, Ardal 2).

- 3.6 Bu'r cyfranogwyr yn myfyrio ar y 'diriogaeth anhysbys' yr oedd yn ofynnol iddynt symud iddi, a'r angen i addasu a gweithredu newid yn gyflym a arweiniodd at deimladau o ansicrwydd, ansefydlogrwydd, pryder am risg a gorbryder, yn enwedig yn ystod cyfnod cynnar y pandemig:

Roeddem yn gweithio gyda'r prif swyddogion i sicrhau bod gan staff y wybodaeth a'r arweiniad cywir yn unol â'r newidiadau parhaus, roedd yn teimlo fel newidiadau wythnosol i ganllawiau Llywodraeth Cymru. [...] ...fel tîm roeddem yn edrych ar bethau fel gwneud yn siŵr bod gennym ni glytiau diheintio mewn ceir a'r ceir pwll a oedd ar gael i staff fynd allan (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4).

...roedd y gweithwyr cymdeithasol mewn anhrefn llwyr, panig [...]. Trodd ein byd gwaith cyfan ben i waered a daeth popeth y cawsom ein hyfforddi i'w wneud, i gnocio drysau, i feithrin perthnasoedd yn ysbryd y Ddeddf, i ben ac roedd yn rhaid i ni ddod o hyd i'r ffyrdd hyn o addasu (Uwch-reolwr, ALI, Ardal 3).

Effeithiau ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr

- 3.7 Roedd sydynrwydd dyfodiad y pandemig yn golygu newidiadau bron ar unwaith yn y modd y darperir gwasanaethau cymdeithasol, gyda goblygiadau i unigolion, teuluoedd a gofalwyr, fel yr eglurir isod:

... newidiodd y model traddodiadol o waith cymdeithasol dros nos, yn llythrennol dros nos. Felly un funud byddech chi wedi bod yn mynd i mewn ac yn cael sgwrs, 'Beth sy'n Bwysig' gyda rhywun, edrych ar ddarparu gofal a chymorth a'r funud nesaf rydych chi'n cael sgwrs gyda rhywun dros y ffôn am nad ydyn nhw eisiau. [gweithiwr gofal] dod dros eu trothwy a'r cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo i bwy bynnag a allai lenwi'r bwch hwnnw. Felly roedd rhywbeth anhygoel, nid wyf yn mynd i ddefnyddio'r gair 'baich' oherwydd nid yw hynny'n deg, ond roedd llwyth anhygoel a aeth ar lawer o ofalwyr, gofalwyr anffurfiol, wyddoch chi, merched,

meibion, mamau, y rhwydwaith anffurfiol hwnnw, iddynt hwy ddarparu'r cyflenwi hwnnw mewn gwirionedd (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 3).

3.8 Cyfeiriodd cyfranogwr at leihad 'sylweddol' yn yr asesiadau gofalwyr a gynhaliwyd yn ystod COVID-19 fel effaith ar deuluoedd, gyda 'derbyniad anffurfiol' y byddai gan y rhai sydd angen gofal a chymorth aelodau o'r teulu i gamu i mewn: *...roedd hynny yn fy nharo fel yr oedd pobl yn, nad oedd cydnabod gofalwyr o reidrwydd ar flaen arfer pobl a'u bod yn dod yn ddibynnol ar ofalwyr di-dâl (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 1).*

3.9 Yn gysylltiedig â'r gallu neu'r anallu i ddiwallu'r angen a aseswyd, nododd cyfranogwyr fod y gostyngiad yn y cymorth i ddefnyddwyr gwasanaeth yn cynyddu'r baich ar ofalwyr:

Rwy'n meddwl, wrth i COVID-19 fynd yn ei flaen, roedd yna ymdeimlad gwirioneddol o shifft bod gofalwyr wedi cael cyfnod hir o wneud mwy gyda llai o gefnogaeth. Eu rhwydweithiau cymorth eu hunain, nid oedd pobl yn gweld ei gilydd, nid oedd unrhyw grwpiau, nid oedd unrhyw weithgareddau (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 1).

Rwy'n meddwl bod gofalwyr wedi dioddef yn sylweddol yn ystod y pandemig hwn. [...] ...rydym yn gwybod bod cryn dipyn o ofalwyr allan yna sydd wedi cael trafferth gwirioneddol yn ariannol, yn emosiynol, yn gorfforol i ofalu am eu plentyn, eu priod yn ystod y pandemig hwn (Staff rheng flaen, ALI, Ardal 2).

3.10 Nid oedd hyn i gyd yn negyddol, fodd bynnag. Dadleuodd rhai cyfranogwyr fod y ffocws ychwanegol ar ofalwyr wedi bod yn gadarnhaol, o ystyried eu bod bellach yn weladwy ac yn ymddiried ynddynt mewn ffordd nad oeddent wedi bod yn flaenorol: *...mae ein perthynas â gofalwyr yn well ac wedi gwella'n ddramatig yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd ein bod wedi gorfod dibynnu cymaint ar ein gilydd. Rwy'n golygu mai'r gofalwyr oedd ein clustiau a'n llygaid (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).*

3.11 Tynnodd y cyfranogwyr sylw hefyd at effeithiau ehangach ar ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr megis cynnydd mewn atgyfeiriadau ar gyfer materion gan gynnwys pryderon ynghylch: *hyder, pryder, parodrwydd i fynd allan a bod yn annibynnol, a gafodd effaith aruthrol ar lawer o grwpiau (Rheolwr Gweithredol, Sector Gwirfoddol, Ardal 1).*

- 3.12 Nododd y cyfranogwyr fod blaenoriaethu rhai grwpiau – fel pobl hŷn – ar hyn o bryd yn cyfyngu ar fynediad i wasanaethau i blant, pobl ifanc, a’u teuluoedd. Soniwyd hefyd am effeithiau ar bobl ifanc mewn gofal preswyl, yn enwedig o ran ymgysylltiad wyneb yn wyneb cyfyngedig, unigedd ac ansicrwydd. Fodd bynnag, mewn rhai achosion disgrifiwyd canlyniadau cadarnhaol nas rhagwelwyd, fel yn y darn isod sy’n cyfeirio at berthnasoedd cryfach rhwng staff a phobl ifanc drwy dreulio amser ychwanegol gyda’i gilydd, a rhannu profiadau: *...daeth pobl ifanc a’r staff yn ynysig yn gyflym iawn gyda COVID-19 [...]. Rwy’n meddwl bod pobl ifanc a staff wedi gallu rhannu’r profiad hwnnw o weithio drwy COVID-19 ac rwy’n meddwl, oherwydd hynny, fe wnaeth pawb ymgysylltu, a chryfhaodd perthnasoedd (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).*
- 3.13 Rhannwyd pryderon ynghylch effeithiau tymor hwy cyswllt wyneb-yn-wyneb cyfyngedig ar gyfer unigolion ag anabledau dysgu, eu teuluoedd, a gofalwyr â phryderon y gallai fod ‘*mwy o effaith i’w gweld*’ (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).
- 3.14 Rhannwyd pryderon tebyg yng nghyd-destun diogelu plant a phobl ifanc. Ym marn un cyfranogwr, profodd un awdurdod lleol ‘ostyngiad sylweddol mewn adroddiadau diogelu’ o ‘bron i 50%’, a briodolwyd i gau ysgolion a chartrefi gofal. Cododd cyfranogwr arall effaith cau ysgolion a chau neu leihau gwasanaethau wrth i bobl ifanc ‘lithro drwy’r rhwyd’, gan gynyddu risg a chymhlethdod: *Nid yw pethau wedi bod fel ag y byddent lle byddai rhywun yn cadw llygad arnom, ac mae hynny’n bryder, nid yw hynny’n nifer enfawr ond mae yna un neu ddau o achosion sy’n sicr yn dod i’r meddwl ac sy’n delio â mathau o achosion mwy cymhleth pan ddônt drwodd (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4).*
- 3.15 Disgrifiodd y cyfranogwyr effaith aflonyddgar y pandemig ar sefydliadau, staff, a’u ffyrdd o weithio, gyda geiriau fel ‘difrodi’, gan grisialu natur aciwt hyn: *... cafodd y tîm [maes gwasanaeth] ei ddinistrio gan salwch, roedd nifer o bobl i ffwrdd â COVID-19, ond roedd nifer o bobl i ffwrdd â phethau eraill hefyd, felly roedd y tîm wedi dirywio (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).*
- Rwy’n meddwl pe na baem wedi cael pandemig, nad oedd wedi dirywio ein gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, wrth gwrs y byddem wedi symud ymlaen â rhywfaint o’r [gweithredu] hwn (Uwch-reolwr, ALI, Ardal 3).*
- 3.16 Roedd cyflymder cychwynnol y symud i weithio o bell yn her i staff. Disgrifiodd yr ymatebwyr sefyllfaoedd nad oeddent wedi dod ar eu traws yn flaenorol: *Nid oeddem yn fedrus wrth wneud asesiadau ffôn, nid oedd neb wedi ein hyfforddi i wneud*

asesiad ffôn, roedd y cyfan wyneb yn wyneb a'r hyn yr ydych yn ei godi (Rheolwr Gweithredol, Bwrdd Iechyd, Ardal 2). Nododd ymatebydd arall un o'r materion yr oedd methu â gweithio wyneb yn wyneb yn ei olygu i weithwyr cymdeithasol: ...mae'n amhosib cael yr un teimlad o'r gwaith â thros y ffôn neu weld beth yw'r amodau yn y tŷ (Rheolwr gweithredol, ALI, Ardal 1).

3.17 Trafodwyd anfanteision gweithio o bell a gweithio digidol, a chanolbwyntiwyd yn bennaf ar y diffyg cyfleoedd ar gyfer sgysiau achlysurol, cefnogaeth cymheiriaid, gwirio synnwyr, datrys problemau, dal i fyny ymhlith cydweithwyr, ac i rai, unigrwydd ac arwahanrwydd gweithio gartref.

3.18 Roedd yr heriau hyn hefyd yn amlwg i fyfyrwyr ar leoliad a gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso, gyda goblygiadau ar gyfer gweithlu hyderus, profiadol a chynaliadwy:

Yr holl ddylanwadau amgylcheddol sy'n digwydd pan fyddwch chi ar leoliad, rydych chi fel sbwng ac rydych chi'n dysgu o bob ochr, nid y math hwnnw o sesiynau un-i-un yn unig sydd gennych chi, ond sut mae rhywun yn rheoli sgysiau, sut mae'r tîm yn rhyngweithio â'i gilydd a'r holl bethau hynny rydw i wir wedi teimlo eu bod ar goll [...]. Mae ganddyn nhw eu blwyddyn gyntaf o ymarfer a fyddai wedi cael eu heffeithio, maen nhw allan yna yn ymarfer, fel gweithiwr newydd gymhwyso heb y profiad tîm hwnnw [...]. Gallai un o'r canlyniadau fod os nad ydych wedi cael y profiad hwnnw, ac a allai hynny newid faint o amser y gallech aros yn y proffesiwn (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4).

3.19 Roedd gan weithio ar-lein oblygiadau hefyd o ran darparu hyfforddiant staff, gan symud o fodel wyneb yn wyneb traddodiadol i ddarparu ar-lein. Roedd angen ystyried hygyrchedd, ymgysylltu ac offer ar gyfer y newid hwn: *...roedd yn rhaid inni feddwl o ddifrif sut yr oeddem yn mynd i fod yn darparu hyfforddiant ar-lein, o ran hygyrchedd, cael y deunyddiau cywir, sut i gyfleu'r deunyddiau hynny, meddu ar y sgiliau i'w wneud a sut i alluogi'r cyfranogwyr hynny i gael y gorau o'r hyfforddiant (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).*

3.20 Dywedodd ymatebwyr fod symud oddi wrth ryngweithio wyneb yn wyneb i weithio dros y ffôn a/neu ar-lein yn arwain at ganlyniadau ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal, megis atgyfeiriadau diweddarach a mwy difrifol yn cael eu derbyn: *Gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal, fe wnaethant barhau i weithio o bell am ran enfawr o'r pandemig. [...] ...gwerth y rhaglenni hynny o ran cynyddu angen, o ran darparu cymorth. [...] ...mae'r data yn dangos ein bod bellach, mewn gwirionedd, yn 18 mis*

o gymorth nad yw'n cael ei ddarparu mewn modd amserol, mae angen ei uwchgyfeirio [...]. Rwy'n meddwl bod llawer o niwed cudd allan yna (Uwch-reolwr / Arweinydd strategol, ALI, Ardal 2).

3.21 Cafwyd amhariadau hefyd drwy ailddyrrannu staff ac adnoddau i ymateb i COVID-19: *roedd pwysau o ran bod yn rhaid symud staff i ganolbwyntio ar COVID-19 ac ar eu tasgau craidd roedd yn rhaid iddynt gamu i mewn yn unig [...]. ...pan ddechreuon ni gyflwyno'r brechiadau roedd y staff yn cael eu cymryd o'u swydd bresennol i orfod delio â hynny mewn gwirionedd (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 1).*

3.22 Ar ddechrau'r pandemig, roedd 'llawer o ansicrwydd' ynghylch y costau ychwanegol dan sylw, ac i ba raddau y byddai'r costau'n cael eu talu gan awdurdodau lleol, a beth fyddai'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru:

Nid oedd gennym unrhyw syniad beth fyddai'n ei gostio i ni o ran y galw am wasanaethau, pethau ychwanegol fel PPE, costau glanhau, yr holl bethau a ddaeth gyda COVID-19 a cheisio cadw pethau i fynd. [...]. Yr hyn a helpodd oedd y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi sylweddoli'n gyflym fod eu hangen arnynt er mwyn cynnal iechyd y cyhoedd a gwasanaethau cyhoeddus, a'u bod angen inni allu gweithredu'n ariannol, felly'n gyflym iawn fe wnaethant ddweud, "lawn, byddwn yn rhoi sylw i'ch anghenion cost o ran unrhyw gostau ychwanegol, costau staffio, costau glanhau, PPE, beth bynnag". [...] Felly esblygodd y broses honno'n gyflym wrth i ni fynd ysgwyddo'r gwariant, gan wybod y byddai Llywodraeth Cymru yn tanysgrifennu'r gost, a lluniwyd proses a gweithiodd yn eithaf da (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 1).

3.23 Rhoddwyd blaenoriaeth i benderfyniadau a chynlluniau i sicrhau llesiant staff, yn enwedig o ran eu diogelwch personol, fel y disgrifir gan yr ymatebwyr isod:

...roedd yn gydbwysedd o wneud yn siŵr ein bod yn glir mewn perthynas â'r newidiadau yn y disgwyliad arnom gyda'r Ddeddf COVID-19 ac ati, ond hefyd gwneud yn siŵr ein bod yn wirioneddol ymwybodol o lesiant staff (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 1).

...er tegwch i'r staff hynny, roeddent yn dod i mewn i'r gwaith ac yna'n dychwelyd i'w cartrefi eu hunain a'u teuluoedd eu hunain ac yn cefnogi pobl â COVID-19 yn y gwaith ac rwy'n meddwl bod hynny wedi cael effaith emosiynol ar lawer o staff (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).

Yn eithaf diddorol, ymaddasodd rhai pobl ac roeddent yn wirioneddol gadarnhaol ac egniol yn ystod y model argyfwng hwnnw [...] mae eraill wedi cael trafferth gyda'r model argyfwng [...]. Maen nhw wedi cael cymaint o drafferth fel bod rhai wedi cymryd absenoldeb salwch oherwydd hynny, maen nhw'n dweud "o wel alla i ddim delio â hyn, mae hyn yn llawer rhy emosiynol i mi ddelio ag ef" (Uwch-reolwr / Arweinydd strategol, ALI, Ardal 4).

Effaith ar ddatblygu gwasanaeth

- 3.24 Roedd darlun cymysg yn y dystiolaeth am effaith rheoliadau COVID-19 a chyfyngiadau'r cyfnod clo ar ddulliau o ddatblygu gwasanaethau. Oherwydd cysylltiadau personol cyfyngedig, teimlai rhai ymatebwyr ei fod wedi amharu ar allu awdurdodau lleol a thrydydd sector i symud ymlaen â newidiadau i wasanaethau ac ataliaeth yn y gymuned: *O ran atal ac ymyrraeth gynnar, roedd ein huchelgais o drawsnewid yn ymwneud â gwydnwch cymunedol ac adeiladu cydnerthedd cymunedol fel nad oedd angen inni fod yn darparu arian a'r math hwnnw o bethau. [...]. Y gwir amdani yw, oherwydd nad oeddem yn gallu gadael ein tai mewn un ystyr, roedd yn rhaid rhoi'r gorau i lawer o'r gwaith o adeiladu'r gweithgareddau cymunedol hynny (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 2).*
- 3.25 Adleisiwyd y profiadau hyn gan eraill. Isod, mae ymatebwyr yn trafod effaith COVID-19 ar gynlluniau i symud ymlaen, datblygu ac ailstrwythuro gwasanaethau a diwylliannau. Gyda'r angen i ganolbwyntio ar yr argyfwng ac addasu i wahanol ffyrdd o weithio, roedd yn rhaid i flaenoriaethau fod yn wahanol:

Roedd gennym nifer o gynlluniau mewn perthynas â datblygu ein gwasanaethau mewn ymgynghoriad â gwasanaethau dydd, datblygu ein gwasanaethau arhosiad byr, datblygu ein llety i bobl ifanc. Byddwn yn dweud bod COVID-19 wedi neilltuo'n sylweddol yr amser ar gyfer targedau yr oeddem wedi'u cynllunio ar gyfer y meysydd datblygu hynny (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 3).

Fe wnaethom ddechrau trafodaethau ynghylch ailstrwythuro gwaith cymdeithasol yn ffurfiol tua 2018/2019. Roeddem yn llythrennol ar ddechrau 2020, ac erbyn mis Mawrth 2020 roeddem yn cyrraedd y pwynt lle'r oedd gennym gynnig ar gyfer ailstrwythuro gwaith cymdeithasol mewn gwirionedd. Roeddem wedi rhyw fath o adolygu, roeddem wedi gwneud llawer o waith yn arwain at 2020 gyda staff, yn enwedig o amgylch y swyddogaeth adolygu ac yn y blaen [...] ac fe

aethom i mewn i'r pandemig a bu'n rhaid i ni roi seibiant i hynny a'i roi o'r neilltu (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4).

Daeth y pandemig, a'r flaenoriaeth oedd cadw pobl yn ddiogel a goroesi pob dydd a daeth rhywfaint o'r meddwl blaengar hwnnw i stop (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).

Effeithiau ar waith aml-asiantaethol

- 3.26 Teimlwyd bod y pandemig wedi effeithio ar integreiddio a gweithio amlasiantaethol rhwng awdurdodau lleol, asiantaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd. I rai, dros gyfnod y pandemig bu 'rhwyl' mewn integreiddio a achoswyd gan wahaniaethau mewn arferion gwaith – fel gweithio o bell i rai a gweithio wyneb yn wyneb i eraill, a'r gwahanol systemau seiliedig ar waith a ddefnyddir mewn gwahanol sectorau :

Rwy'n meddwl pan fyddwch yn gweithio gartref rydych yn colli'r chweched synnwyr. Rydych chi'n colli rhywbeth o ran moeseg y tîm ac ethos y tîm, a'r cymorth anffurfiol y mae pobl yn ei gael cyn ac ar ôl iddynt fod ar ymweliad anodd er enghraifft. Rwy'n meddwl ein bod wedi methu bod gyda chydweithwyr iechyd a'r holl ryngweithio anffurfiol. Rwy'n meddwl bod y diwylliant yn dioddef oherwydd bod diwylliant tîm yn wahanol iawn i fod mewn swyddfa gyda phobl, lle gallwch chi deimlo'r tymheredd, gallwch chi gael ymdeimlad o sut mae pobl, gallwch chi gael ymdeimlad o'r tymheredd yn y tîm, y morâl, mae hynny i gyd yn fy marn i yn llawer anoddach i'w wneud pan fyddwch gartref. Nid yw'n amhosibl, ond yn llawer anoddach i'w wneud ar [Microsoft] Teams (Rheolwr gweithredol, ALI, Ardal 2).

...gall fod yn rhwystredig ar brydiau pa mor araf y maent [gwasanaethau cymdeithasol] yn dychwelyd i weithio wyneb yn wyneb. [...]. ...nid oes gennym wasanaethau cymdeithasol yn ôl yn yr adeilad hyd heddiw, felly rydym dros ddwy flynedd yn ddiweddarach nawr (Rheolwr Gweithredol, Bwrdd Iechyd, Ardal 1).

- 3.27 Cydnabuwyd y gwaith sydd ei angen i ailadeiladu ymddiriedaeth a pherthnasoedd ar draws sefydliadau a oedd wedi'u sefydlu'n weddol dda cyn COVID-19: *...mae gwir angen cydweithwyr gwasanaethau cymdeithasol yn ôl yn yr ystafell, gan na allwn wthio ymlaen â'r cydgynhyrchu hwnnw a "Beth sy'n Bwysig", sef calon y Ddeddf (Rheolwr Gweithredol, Bwrdd Iechyd, Ardal 1).*

- 3.28 Mewn cyferbyniad, roedd profiadau o gydweithio ym maes gofal cymdeithasol ac iechyd a oedd wedi codi i uchelfannau newydd yn ystod y pandemig, fel yr amlygwyd gan gyfranogwyr eraill:

Rydyn ni'n gweithio'n dda iawn gyda'n gilydd. Rwy'n meddwl ein bod ni i gyd yn eithaf gonest am y pwysau, ac roedd y parch hwn a rennir bod pwysau ar y ddwy ochr. Roedd bron â dod at y bwrdd, yn hytrach na bod yn amddiffynol, ein bod yn dweud, 'lawn, felly, dyma le'r ydym ni, dyma le'r ydych chi, beth sy'n mynd i fod yn flaenoriaethau inni?' 'Beth y gallwn ei wneud yn wahanol yn realistig i helpu'r ddwy ochr?' (Rheolwr gweithredol, ALI, Ardal 1).

...ar lefel gorfforaethol, nid wyf yn meddwl bod y cydweithio â'r Bwrdd Iechyd erioed wedi bod mor dda, mor agos. [...]. Dydw i ddim yn meddwl ei fod erioed wedi bod mor agos mewn perthynas â chydweithio (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 1).

Daeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol o hyd i ffyrdd o weithio llawer mwy ar y cyd, yn llawer agosach gyda'i gilydd a llawer mwy fel ymagwedd unedig, ddi-dor tuag at unigolion (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 4).

- 3.29 Er enghraifft, o ran gweithio o bell a chyfarfodydd rhithwir, roedd ymgysylltiad aml-asiantaethol mewn cyfarfodydd wedi gwella. Roedd y manteision yn cynnwys ei hwylustod a mwy o gapasiti i fynychu oherwydd yr amser a arbedwyd ar deithio:

... pan oedd angen i ni drefnu cyfarfodydd diogelu brys a phethau felly, mae argaeledd pobl wedi bod yn llawer haws oherwydd nid ydym i gyd wedi gorfod cyrraedd cyrchfan er mwyn bod yno. Felly rydym wedi cael mwy o gyfarfodydd diogelu amlasiantaethol yn y ddwy flynedd ddiwethaf, lle mae'r tîm amlasiantaethol cyfan wedi gallu dod at ei gilydd yn hytrach na dim ond y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4).

- 3.30 Roedd cydweithio effeithiol blaenorol a sefydlwyd cyn y pandemig wedi helpu i gynnal ac i rai, atgyfnerthu perthnasoedd gwaith effeithiol:

Rwy'n credu mai dyna un o'r pethau da o ran y pandemig, rwy'n credu bod y perthnasoedd hynny yno beth bynnag felly gallem barhau â nhw ond mewn fformat gwahanol (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).

...efallai ei fod wedi arafu [ein partneriaeth] ychydig ond oherwydd bod gennym ni sylfeini mor dda yno'n barod, nid wyf yn meddwl bod y pandemig wedi tanseilio'r bartneriaeth a oedd yno yn ormodol (Uwch-reolwr, ALI, Ardal 3).

- 3.31 Tynnodd ymatebwr arall sylw at fantais buddsoddiad sylweddol 'ers dros ddegawd' mewn rhwydweithiau perthynol, a oedd yn golygu: *Nid oedd angen nac anghenraid i greu perthnasoedd personol, roeddem wedi gwneud hynny (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 3).*
- 3.32 Er bod y pandemig wedi cael 'effaith gadarnhaol ar berthnasoedd' i rai, roedd yna fyfyrion ar yr anawsterau o ran cynnal y datblygiadau cadarnhaol hyn ar ôl COVID-19, yn enwedig yn wyneb pwysau a blaenoriaethau cystadleuol:
- ...mae pobl wedi dychwelyd i gael gwahanol flaenoriaethau a nodau gwahanol, ac maen nhw'n tynnu yn erbyn ei gilydd ychydig yn fwy yn barod [...]. ...mae awdurdodau lleol fwy neu lai wedi mynd yn ôl i fusnes fel arfer [...]. Mae'r ffocws [bwrdd iechyd] wedi symud oddi wrth y gwaith partneriaeth hwnnw, y nod partneriaeth hwnnw, yn ôl i'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni yn eu sefydliad eu hunain (Rheolwr Gweithredol, Sefydliad Rhanbarthol, Ardal 1).*
- Mae'n debyg bod iechyd wedi bod yn gyflymach o ran troi'n ôl at ymatebion busnes fel arfer, bod yn ymwybodol o'u pwysau cyllidebol a bod braidd yn galed, wyddoch chi, ar wagio'r gwelyau a phethau felly (Rheolwr gweithredol, ALI, Ardal 4).*
- Rwy'n meddwl bod cydweithio ar draws pob sector yn bwysig iawn yn y Ddeddf ac nid wyf yn meddwl y byddwn byth yn gweld amser eto lle mae cymaint o aliniad a phawb yn rhwyfo i'r un cyfeiriad (Uwch-reolwr / Arweinydd strategol, ALI, Ardal 1).*
- 3.33 Roedd consensws, er mwyn 'ail-gydbwysio gofal', bod angen ariannu'r 'system gyfan', yn hytrach na rhannau: *...os yw Llywodraeth Cymru o ddifrif ynghylch ail-gydbwysio gofal, mae'n rhaid iddynt ddechrau neilltuo rhai cronfeydd iechyd i ail-gydbwysio gofal yn y gymuned, ac nid yw'n ddigon ei roi yn y Gwasanaeth Iechyd Cymunedol yn unig; mae'n rhaid iddo fod yn system gyfan – gwasanaethau iechyd Cymunedol a Gofal Cymdeithasol (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, Bwrdd Iechyd, Ardal 2).*
- 3.34 Ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, roedd y defnydd o dechnoleg ddigidol wedi gwella a galluogi cydweithio: *...mae pawb yn cael cyfle i gyfrannu [...] i'r hyn sy'n digwydd yn lleol ac i unrhyw bryderon. Rwy'n meddwl bod hynny wedi rhoi hyder i bobl ac wedi gwneud i bawb deimlo bod ganddynt lais a bod pawb yn bartneriaid cyfartal, a dydw i ddim yn meddwl bod y teimlad hwn yn bodoli cyn y pandemig*

(Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 1). Serch hynny, cydnabuwyd gwerth cydweithio wyneb yn wyneb: Mae gwerth gwirioneddol i bobl allu treulio amser gyda'i gilydd. Rwy'n meddwl mai dyma o ble y daw llawer o'r cydweithio gorau (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).

Gwydnwch a Blinder

- 3.35 Roedd gwydnwch defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, teuluoedd, y gweithlu, a sefydliadau yn thema gyson yn y cyfweiliadau. Fodd bynnag, pwysleisiodd llawer o ymatebwyr hefyd ddechrau blinder a oedd wedi goddiweddyd neu wedi gorchuddio'r gwydnwch a welwyd ar ddechrau'r pandemig.

Gwydnwch – Defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a theuluoedd

- 3.36 Nodwyd llawer o agweddau ar wydnwch yn ystod COVID-19 gan ymatebwyr. Roedd cydnherthed yn gysylltiedig ag ymdeimlad canfyddedig o fwy o wrthwynebiad a chryfder ymhlith defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, a theuluoedd, ochr yn ochr â llai o ddisgwyliadau, a pharodrwydd i 'roi cynnig ar bethau gwahanol'. Roedd gwydnwch o'r fath yn arbennig o amlwg ar ddechrau'r pandemig:

...mae'r cyhoedd hefyd yn disgwyl llai gennym, felly o'r safbwynt hwnnw, mae'r cyhoedd yn fwy gwydn nag yr oeddent ddwy flynedd yn ôl ac maent yn fodlon rhoi cynnig ar wahanol bethau yn fwy rhwydd nag yr oeddent ddwy flynedd yn ôl (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).

Mae gwydnwch rhai o'r teuluoedd hyn wedi bod yn rhyfeddol [...]. ...mewn rhai achosion, mae'n dangos hefyd, o bosibl, ein bod yn gor-gefnogi unigolion os cawn y cyfle i wneud hynny, byddai rhai pobl yn dewis peidio â mynd i wasanaethau dydd neu beidio tra, gyda rhai pobl eraill, roedd yn dangos bod gwir angen y gwasanaeth dydd hwnnw arnom ar gyfer yr unigolyn hwnnw (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 1).

Yn sydyn daeth llawer o'r bobl a oedd wedi bod mewn gwasanaethau iechyd meddwl hirdymor yn llawer mwy gwydn a thrwy ddod yn fwy gwydn, roedd yn golygu nad oeddent mor ddibynnol ar wasanaethau ag y buont ac rwy'n meddwl ei fod yn cael ei werthfawrogi ganddynt hwy eu hunain hefyd. eu bod yn gryfach nag yr oeddent yn ei feddwl (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).

- 3.37 Gwelwyd bod dull stoicaidd y rhai sy'n derbyn gofal a chymorth yn gyfle i archwilio ffyrdd o barhau i feithrin gwydnwch:

...cymerasom hynny fel cyfle i edrych ar adeiladu mewn gwirionedd, ar y gwydnwch hwnnw [...] yr elfen honno o, 'mewn gwirionedd, gallwn wneud pethau'n wahanol' (Rheolwr gweithredol, ALI, Ardal 1). Fodd bynnag, wrth i amser fynd rhagddo, daeth cynnal gwydnwch yn fwy heriol: ...ar y dechrau roedd yn union fel, 'lawn. Mae'n beth newydd. Bydd yn rhaid i ni fynd trwy hyn am ychydig wythnosau neu ychydig fisoedd, neu beth bynnag. Rwy'n meddwl felly, fel yr oedd yn mynd ymlaen, rwy'n meddwl ei fod wedi mynd yn fwy heriol i rai teuluoedd [...] Rwy'n meddwl bod y pwysau ar deuluoedd fwy na thebyg wedi dangos mwy oherwydd rwy'n meddwl mai'r cyfnod estynedig hwnnw o amser lle gwnaethant ymdopi a does neb yn gallu ymdopi am byth, fedran nhw? Mae'n cael effaith ar bobl yn y pen draw (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).

- 3.38 Cydnabu'r ymatebwyr hefyd, er enghraifft, drwy ffyrlo, fod mwy o gyfle i ddinasyddion gamu i mewn a 'gofalu am eu hanwyliaid':

...gwelsom ar y dechrau, pobl yn cael eu defnyddio fel adnodd [drwy ffyrlo] [...] roedd pobl yn cael amser ac roedd pobl yn cael yr hyn y byddent wedi cael ei dalu yn y gwaith. Felly, os meddylwch am ein holl ofalwyr di-dâl, nid ydynt yn cael eu talu a dyna pam na all llawer o bobl ei wneud oherwydd na allant fforddio ei wneud. Felly mae hynny wir wedi gwneud i mi feddwl am yr elfen honno o'r Ddeddf, roedd pobl yn ei wneud, roedd pobl yn gofalu am eu hanwyliaid ond nid allant wneud hynny am byth (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4).

[gyda'r disgwyl] dychwelyd i'r gwaith ac angen dychwelyd i ennill arian, y rhwystredigaeth i rai pobl yw er eu bod wedi bod yn gofalu am fam neu dad, yn sydyn mae'r gofal ffurfiol a oedd ar gael o'r blaen wedi lleihau. Nawr maen nhw'n codi eu llaw gan ddweud, 'le, mae angen i mi fynd yn ôl nawr,' i gael gwybod, yn anffodus nid oes gennym ni'r gofal o reidrwydd i allu disodli'r hyn rydych chi'n ei ddarparu (Rheolwr, ALI, Ardal 3).

- 3.39 Wrth i amser fynd yn ei flaen, sylwodd rhai ymatebwyr ar effeithiau niweidiol oedi wrth geisio cymorth a mynediad at wasanaethau, a chwestiynu ei effaith hirdymor bosibl, yn enwedig o ran dechreuad blinder ymhlith unigolion a theuluoedd:

[flwyddyn yn ôl] byddwn wedi dweud bod gwydnwch teuluoedd ac unigolion wedi bod yn wych, ac o ran "Beth sy'n Bwysig", mae hynny'n amlwg wedi bod yn ffocws i bobl ac mae pobl wedi dod o hyd i atebion a ffyrdd o wneud hynny. Yr hyn y byddwn i'n ei ddweud rydyn ni'n ei weld yw blinder nawr, ac rydyn ni wedi gweld llawer o bobl yn gofyn am ofal a chymorth yn hwyr iawn. Rydyn ni'n gweld

llawer o bobl nad ydyn nhw wedi cael triniaeth, na wnaethant gyflwyno ar gyfer triniaeth, gydag effeithiau andwyol hynny [...]. ...mae'n anochel y bydd hynny'n effeithio ar y galw ar awdurdodau lleol i ddarparu gofal a chymorth (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, Bwrdd Iechyd, Ardal 2).

- 3.40 Gan gydnabod bod llawer o gymunedau eisoes yn wydn cyn y pandemig, cynigiwyd y syniad i adeiladu 'cymunedau dyfeisgar' yn lle hynny, drwy dynnu ar gryfderau, asedau, a phartneriaethau – fel y bwriadwyd gan y Ddeddf – gan gyfranogwr

...mae terfyn i faint o weithiau y gallwch chi fwrw cymuned i lawr, a mynd, 'O wel, nid yw'n wydn mwyach'. Er ein bod yn gweithio o'r syniad ein bod yn gwybod beth sydd gennym o ran ein hasedau, gadewch inni fod yn fwy dyfeisgar ag ef, beth y gallwn ei wneud mewn partneriaeth, a gadewch inni fod yn fwy dyfeisgar a chreadigol gyda'r hyn sydd gennym, yn hytrach na disgwyl i gymunedau fownsio'n ôl drwy'r amser [...]. Rydym yn ceisio adeiladu cymunedau gwydn, ac mae hynny i gyd yn dod allan o'r holl Ddeddfau, pan mewn gwirionedd maent wedi bod yn wydn ers blynyddoedd, ond yr hyn yr ydym yn dysgu i'w wneud yn awr yw bod yn fwy dyfeisgar (Rheolwr Gweithredol, Gwirfoddol Sector, Ardal 1).

Gwydnwch: gweithlu a sefydliadau

- 3.41 Yn ogystal â defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a theuluoedd, rhoddwyd enghreifftiau niferus o wydnwch y gweithlu, ymatebolrwydd staff a sefydliadol, ymroddiad i weithio oriau hir, ac ymaddasolrwydd:

Mae'r ffordd y daeth partneriaid at ei gilydd ar ddechrau'r pandemig, gan dorri trwy ystodau enfawr o fiwrocratiaeth, cydbwysedd proffesiynol a oedd yno o'r blaen yn rhyfeddol, mae'n dyst i'r ymrwymiad a'r angerdd enfawr ar draws y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol (Uwch-reolwr, ALI, Ardal 3).

Rwy'n meddwl bod pawb yn y sector cyhoeddus wedi dangos fel sefydliadau unigol ac ar y cyd fel sector, y gallwn ymateb i symudiad yn gyflym. Ond mae angen yr egwyddorion craidd i wneud hynny, mae pawb yn gwybod eu rôl, mae pawb yn gwybod ble maent yn ffitio i mewn a lle mae adnoddau yn cael eu rhoi a hoffwn feddwl bod hynny'n mynd i aros gyda ni (Uwch-reolwr / Arweinydd strategol, ALI, Ardal 1).

Roeddech chi'n gweithio oriau hir ac yn ddi-stop heb egwyl penwythnos, felly ni chawsoch gyfle i ddadflino cyn i'r her nesaf ddod. Rwy'n meddwl bod staff wedi bod yn rhagorol o ran bod yn wydn (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).

Gwydnwch ein gweithlu staff ar bob lefel, mae bob amser wedi bod yn ganolog, ni waeth beth, does dim ots pa mor anodd a pha mor feichus y mae wedi bod (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).

Rwy'n meddwl mai'r negeseuon allweddol i mi i'w cymryd i ffwrdd fyddai'r gwydnwch a'r tosturi y mae staff wedi'u dangos dros y ddwy flynedd diwethaf. [Fe wnaethant] wynebu ton ar ôl ton ar ôl ton, maent ar y cyfan yn dal i sefyll ac yn dal i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig a beth sy'n bwysig (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 3).

Blinder a'i effeithiau

- 3.42 Mae blinder parhaus oherwydd pwysau parhaus wedi cael effaith ar gadw staff, gyda rhai cyfranogwyr yn nodi bod staff yn gadael y gweithlu gofal cymdeithasol. O'i gymharu â'r gwydnwch a ddisgrifir uchod, roedd effaith digwyddiadau'r pandemig ar lesiant ac iechyd meddwl yn thema ar draws y cyfweiliadau. Tra'n cyfeirio at wydnwch y gweithlu yn ystod y pandemig, cydnabuwyd bod blinder sylweddol bellach yn y system iechyd a gofal cymdeithasol – gan adlewyrchu hynny o fewn y boblogaeth a gefnogir gan ofal cymdeithasol:

Rwy'n gweld pobl wedi blino'n lân mewn rhai ardaloedd [...]. Mae gennyh chi'r un bobl yn gwneud yr un swydd ac maen nhw wedi gweithio mwy na dim am wythnos neu ddwy, mae hyn am o leiaf dwy flynedd (Rheolwr Gweithredol, Bwrdd Iechyd, Ardal 2).

Mae'n amlwg bod yna lefelau uchel o flinder, a dydw i ddim yn meddwl bod hynny o reidrwydd yn syndod. Mae hynny'n ymwneud â dwyster a cheisio rhedeg 100 milltir yr awr am gyfnod estynedig o amser (Rheolwr, ALI, Ardal 3).

...mae'r pandemig wedi taflu goleuni ar les meddyliol ein poblogaeth ac mae mwy a mwy o sgysiau yn fy sefydliad i am lesiant staff (Rheolwr Gweithredol, Bwrdd Iechyd, Ardal 3).

- 3.43 Soniodd rhai cyfranogwyr am yr angen i fuddsoddi er mwyn helpu'r gweithlu i ddod i delerau â phrofiadau ac effeithiau'r pandemig, nid yn unig o ran eu blinder, ond hefyd eu hiechyd meddwl:

Rwy'n meddwl ei fod wedi effeithio ar iechyd meddwl rhai pobl ac rydym wedi gorfod buddsoddi llawer mewn gwasanaethau llesiant (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).

Rwy'n meddwl pan geisiwch ddod draw a dweud, "iawn, gadewch i ni symud ymlaen nawr mae gennym lawer i'w wneud i adfer yn rhanbarthol, sut ydym ni'n mynd i drawsnewid ein systemau?". Mae rhywbeth yn y rhan ganol hwnnw am yr hyn sydd angen i ni ei wneud i alluogi staff i brosesu'r hyn y maent wedi bod drwyddo (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 3).

Mae'n eithaf anodd cefnogi teuluoedd, onid yw, sy'n mynd trwy argyfwng pan fyddwch chi'n mynd trwy argyfwng hefyd. Mae'n anodd iawn ac rydych chi i gyd yn mynd trwy'r un argyfwng. Rydych chi'n cefnogi pobl sy'n mynd trwy'r un pethau yn union ag yr ydych chi'n mynd trwyddynt (Rheolwr, ALI, Ardal 2).

...gorfod sicrhau, wyddoch chi, y gallwn gefnogi staff drwy rai profiadau ofnadwy y maent wedi'u cael. Felly, er enghraifft, mae gennym ychydig o gartrefi gofal a gollodd, wyddoch chi, rydym yn siarad yn y dechrau, a gollodd dros hanner eu preswylwyr. Felly, gofynnwyd inni a allem gefnogi'r sector hwnnw, gan drefnu hyfforddiant ynghylch profedigaeth a cholled a rheoli profedigaeth (Rheolwr, ALI, Ardal 2).

- 3.44 Roedd effaith y pandemig ar les emosiynol y gweithlu hefyd yn gysylltiedig ag ymadawiad staff o'r sector:

Mae darparu gofal wedi mynd yn anos, os rhywbeth, yn ystod y misoedd diwethaf oherwydd y llu o staff ar gyflog isel (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 4).

Yr hyn rydym yn ei weld yw absenoldebau staffio mawr lle mae staff wedi cael digon, ac maen nhw wedi gadael y ganolfan i weithio ym maes manwerthu neu letygarwch (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4).

Mae pobl wedi ymlâdd, ac rydym yn colli llawer iawn o bobl allan o'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol (Uwch-reolwr, ALI, Ardal 3).

Amlygiad i fregusrwydd systemau gwasanaethau cymdeithasol

- 3.45 Roedd effaith COVID-19 yn amlygu breuder yn y system gofal cymdeithasol, fel y nododd sawl cyfranogwr yn eu cyfweiliadau. Mae'r gwendidau hyn yn cynnwys effeithiau tanariannu gofal cymdeithasol, strwythur marchnadoedd gofal cymdeithasol, a materion yn ymwneud â chadw'r gweithlu a recriwtio.
- 3.46 Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, soniodd rhai cyfweleion am staff yn gadael y sector gofal cymdeithasol fel 'etifeddiaeth' o'r pandemig, ond trafodwyd breuder

hefyd yn wyneb materion strwythurol ehangach. Yn ogystal â COVID-19, canfuwyd bod breuder y system wedi'i waethygu gan yr argyfyngau economaidd, yr argyfwng costau byw a Brexit, a oedd yn gofyn am 'ail-fuddsoddiad dwys' i ail-gydbwysu'r sefyllfa.

- 3.47 Roedd materion yn ymwneud â recriwtio yn gyffredin, gyda chyfranogwyr yn myfyrio ar yr anawsterau a'r heriau o ran dod o hyd i bobl i weithio yn y sector:

Ni waeth beth rydym yn ceisio ei wneud, ni allwn ei brynu ac ni allwn recriwtio (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, Bwrdd Iechyd, Ardal 2).

Mae gwasanaethau cymunedol yn y byd cartref wedi taro wal o lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol mewn perthynas â recriwtio a chadw. Dyna ein pwysau mwyaf nawr yw recriwtio a chadw. Nid wyf yn gwybod a yw, yn ystod y pandemig, y ddwy flynedd wedi gwneud i ddinasyddion sydd allan yna feddwl ddwywaith am ddod i'r maes iechyd a gofal cymdeithasol (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2)

Waeth pa mor galed yr ydym wedi gweithio, hyd heddiw mae'n debyg bod 1600 awr yr wythnos o ofal cartref nad ydym yn eu darparu oherwydd nid oes gennym y gofawyr (Uwch-reolwr / Rheolwr Strategol, ALI, Ardal 3).

Capasiti gweithlu llai

- 3.48 Roedd breuder y system gofal cymdeithasol yn canolbwyntio ar leihad yng nghapasiti'r gweithlu i ddarparu a chyflenwi gofal a chymorth. Ar draws y cyfweiliadau, gwnaed cymariaethau rhwng lefelau staffio cyn ac ar ôl pandemig, gyda mwy o ddibyniaeth ar staff asiantaeth i lenwi swyddi gwag, a phrinder gweithwyr medrus a phrofiadol ar ôl COVID-19:

Rydym wedi mynd o awdurdod lleol, cyn-bandemig, a oedd yn anaml yn cyflogi gweithiwr cymdeithasol asiantaeth, i un sy'n pwyso tuag at fod yn ddibynnol ar weithwyr cymdeithasol asiantaeth [...]. Rwy'n treulio mwy o amser ar y ffôn i asiantaethau nag i'm staff fy hun (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 2).

- 3.49 Roedd llacio cyfyngiadau'r cyfnod clo hefyd wedi effeithio ar allu'r gweithlu, gan arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n cael eu heintio a lleihau capasiti'r gweithlu ymhellach. Ar ddechrau'r pandemig, gyda gostyngiad mewn opsiynau cyflogaeth (fel hamdden a manwerthu), roedd ALLau wedi gweld cynnydd yn nifer y gweithwyr

gofal dros dro. Fodd bynnag, pan ail-agorodd y sectorau hyn, symudodd pobl yn ôl a 'collom lawer o bobl yn y sector gofal' (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, Bwrdd Iechyd, Ardal 2).

- 3.50 Arweiniodd materion yn ymwneud â chapasiti strwythurol y gweithlu – fel y problemau hirsefydlog yn y sector gofal cartref – a waethygyd gan y pandemig, at yr hyn a ddisgrifiwyd gan rai fel 'gweithio gwrth-sythweledol'. Codwyd pryderon am ganlyniadau pwysau gofal cartref megis effeithiau hirdymor rhoi pobl mewn gofal preswyl yn 'rhy gynnar' a materion yn ymwneud ag oedi wrth ryddhau o'r ysbyty:

Yn ystod y chwech i wyth mis diwethaf, mae hi wedi bod yn anodd iawn darparu gofal yn y cartref oherwydd ni allwch gael gofal cartref annibynnol [sector]. Ein hunig opsiwn yw gorddarparu ar gyfer pobl bryd hynny, i ddiwallu anghenion, felly mae'n rhaid i ni eu gosod [mewn gofal preswyl]. Mae hyn hefyd yn mynd i gael effaith gymdeithasol, economaidd hirdymor oherwydd bod pobl yn cael eu lleoli'n rhy gynnar [...]. Rwy'n bryderus iawn am effaith hynny (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 2).

Mae gennym ni fwy o bobl yn aros yn yr ysbyty ar hyn o bryd tra maen nhw'n aros am becynnau gofal, mae gennym ni fwy o bobl sy'n mynd i gartrefi gofal oherwydd dyma'r dewis arall mwy diogel ac o'n safbwynt ni o fewn diogelu. Rydyn ni'n dod ar draws rhai enghreifftiau lle mae'n teimlo fel bod cartref gofal yn warws i'r henoed ac mae hynny'n ofnadwy, mae hynny'n wir, yn drasig iawn a, wyddoch chi, mae rhai pobl yn mynd i mewn gyda rheolaeth a dewis ac maen nhw'n rhoi'r ffidl yn y to, heb olau ar ddiwedd unrhyw dwnnel (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 3).

- 3.51 Gan gydnabod y pwysau ar y system ofal, crybwyllwyd pwysigrwydd sefydlu a chynnal deialog gyda darparwyr: Os ydych yn ymgysylltu â'r farchnad yn y ffordd gywir ac yna'n cael sgwrs bwrpasol â hwy oherwydd nid ydynt am ddarparu gofal gwael, nid ydynt yn dymuno'r amgylchiadau sydd ganddynt ar hyn o bryd gyda recriwtio a phopeth. Mae'n gur pen enfawr iddyn nhw, felly mae wedi bod yn ymdrech ar y cyd i gydnabod pwysigrwydd gofal fel proffesiwn (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 3).
- 3.52 Mewn un maes datgelwyd bod darparwyr yn cael 'sgyrsiau wrth gefn' gyda theuluoedd, gan ofyn a allent gamu i mewn pe bai gwasanaethau'n cael eu torri yn y dyfodol.

3.53 Disgrifiwyd materion yn ymwneud â capasiti'r gweithlu yn amrywiol fel rhai sy'n rhwystro parhad gofal, canlyniadau a'r amser sydd ei angen i feithrin perthnasoedd ystyrlon, o ansawdd ac ymddiriedus â'r rhai sy'n derbyn gofal a chymorth: Os oes *gennych weithiwr cymdeithasol cyson wedi'i neilltuo i deulu, bydd bob amser ganlyniad gwell ond pan fo llawer o drosiant staff nid yw'n arwain at ganlyniad da yn anfodus weithiau (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).*

3.54 Disgrifiodd un cyfranogwr y 'trallod moesol' o fethu â bodloni ac ymateb i angen oherwydd materion capasiti:

...i'n gweithwyr cymdeithasol roedd yn elfen o drallod moesol [...]. Pan nad oes gofal ar gael sydd wedi dod yn her foesol iddynt, maent yn dweud 'Rwy'n nodi mai dyma'r person pwysicaf yr wyf wedi siarad ag ef yr wythnos hon y mae angen inni ei roi mewn gofal' a dywedasom i gyd 'ie, byddwn yn eu rhoi ar y rhestr argyfwng ac yn chwilio am ofal', a dywedais i 'does dim gofal, dyna'r frwydr'. Beth ydyn ni'n ei wneud oherwydd eu bod eisoes wedi dihysbyddu popeth y gallant ei wneud o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf, ac rydym yn dal i fod yn y cam hwnnw (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 4).

3.55 Yn ogystal ag oedi wrth sefydlu a darparu pecynnau gofal i'r rhai mewn angen, awgrymwyd bod problemau capasiti wedi cynyddu llwythi gwaith, oedi wrth drosglwyddo gofal a rhyddhau o'r ysbyty, ac wedi effeithio'n negyddol ar lesiant staff:

Mae gennym bron i 150 o bobl sy'n ffyt yn feddygol o fewn y [lleoliad] yn unig yn ein gwelyau ysbyty [...] Rwy'n deall bod y sector gofal wedi wynebu heriau sylweddol o ran staffio ac rwy'n gwybod bod cydweithwyr awdurdodau lleol yn cysylltu â'r darparwyr gofal cartref ac yn ceisio cefnogi'r gofal yn y cartref, ond teimlaf fod iechyd yn cael ei weld yn awr fel y lle diogel i'r unigolion hyn, ac nid yw'n lle diogel i'r unigolion hyn (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, BI, Ardal 1).

...ar un adeg roedd gennym dros 100 o bobl yn yr ysbyty yn aros am becyn gofal. Felly roedd y bobl hynny yn yr ysbyty, ni allent gael eu rhyddhau adref, cawsant i gyd asesiadau gwaith cymdeithasol, ond ni allem mewn gwirionedd roi'r gofal yn gorfforol o unrhyw le. [...] Nid oeddem erioed wedi bod yn y sefyllfa honno o'r blaen (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).

Rydym yn dechrau trafodaethau am yr angen i symud pobl allan o'r ysbyty, nid ydynt yn cael llais. Wrth gwrs, efallai nad yw'n syndod, i weithwyr cymdeithasol yn arbennig, mae hynny'n beth eithaf anodd ei dderbyn (Rheolwr, ALI, Ardal 3).

- 3.56 I grynhoi, nododd cyfranogwyr effeithiau negyddol llai o gapasiti'r gweithlu ar gyflawni egwyddorion y Ddeddf ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr:

Y rhan anoddaf o allu ymgysylltu â pherson ifanc yw'r berthynas honno. Os oes gennych chi staff dros dro, dydyn nhw ddim yn mynd i gyflawni hynny. Gall gymryd ychydig o flynyddoedd i ddatblygu, er mwyn galluogi'r person ifanc hwnnw i fynegi'n union beth mae'n ei deimlo (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).

Mae gennych lai o gapasiti staff. Rydych yn llai abl i weithio gyda phobl yn y ffordd yr ydych am weithio gyda phobl ac i gefnogi pobl i ymgysylltu â hwy i gydgyhyrchu (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4).

O ran cyflawni'r Ddeddf, os nad oes gennych staff, ni allwch gyflawni'r Ddeddf yn y ffordd y maent am iddi gael ei chyflawni (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).

Ffactorau'r farchnad ac ariannu gofal cymdeithasol

- 3.57 Tangyllido gofal cymdeithasol, a'r hyn a alwodd rhai cyfranogwyr yn 'freuder' y farchnad cartrefi gofal, oedd yr ail fater o bwys a adroddwyd gan gyfranogwyr fel un a oedd yn cyfrannu at freuder y system gofal cymdeithasol, cyflwr sydd wedi'i amlygu gan y digwyddiadau o amgylch y pandemig. I gyfranogwyr, mae'r sefyllfa hon yn gofyn am archwiliad sylfaenol o sut y dylid darparu gofal:

Rwy'n meddwl bod y system gofal cymdeithasol ac yn enwedig mewn perthynas â chomisiynu gwasanaethau'n allanol [...] sydd wedi'u tanariannu'n ddifrifol, byddwn yn awgrymu ers cryn dipyn o flynyddoedd, mae wedi tynnu sylw at yr angen i gomisiynu rhai o'r gwasanaethau hynny'n wahanol [...] rwy'n meddwl fod COVID-19 wedi rhoi cymaint o sylw i freuder y farchnad gofal cymdeithasol (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4).

...yr her enfawr ynghylch breuder y farchnad cartrefi gofal y mae hyn wedi'i amlygu, eto oedd yno'n barod, ond mae hyn wedi cael gwared ar unrhyw esgus sydd gennym (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 3).

Rydym wedi elwa'n sylweddol iawn ac yn ddefnyddiol iawn gan Lywodraeth Cymru o ran y taliadau llawnach sydd gennym drwy'r £50 miliwn, wyddoch chi, a swm pellach arall yn yr ychydig wythnosau diwethaf ond mae'n debyg y byddant yn cau'r

ddolen ariannol ar raddfa'r pwysau sylfaenol sy'n sylweddol yn y gwasanaethau oedolion a phlant. Rwy'n dyfalu mai fy mhryder allweddol yn y flwyddyn nesaf yw breuder y farchnad (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 3).

- 3.58 Gwnaed sylw hefyd am freuder gofal preswyl i blant ag anghenion cymhleth a heriol a'r anhawster i ddod o hyd i leoliadau rhanbarthol neu genedlaethol. Mae hyn wedi arwain at 'leoliadau heb eu cofrestru' ar waith. Yn nodedig, roedd hwn yn fater y cydnabuwyd ei fod yn cael ei brofi ar draws Cymru:

Rwy'n meddwl bod yna gwestiwn mwy i Lywodraeth Cymru [...] oherwydd rwy'n gwybod o siarad ag ychydig o Brif Weithredwyr Cymru eu bod nhw hefyd yn cario lleoliadau heb eu cofrestru, ond maen nhw mewn penbleth braidd gyda diffyg cyflenwad yn y farchnad ac ar ddiwedd y dydd, mae cyfraith achosion wedi dangos yn weddol ddiweddar mai'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol yn y pen draw, felly os nad oes cyflenwad marchnad mae'n rhaid i'r cyngor sicrhau bod y ddarpariaeth honno ar gael. Rwy'n meddwl bod trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru ynghylch y farchnad honno (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 3).

- 3.59 Er y gwelwyd bod COVID-19 wedi codi proffil gofal cymdeithasol, roedd hefyd yn amlygu tangyllido hirdymor, a diffyg staffio ym maes gofal cymdeithasol, yn enwedig o gymharu ag iechyd, fel y nodwyd gan gyfranogwyr. Awgrymwyd bod y gwahaniaeth hwn mewn ariannu yn tanseilio prosesau integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol:

Yr hyn yr ydym ni [ALLau] wedi'i gael yw cyllid â chyfyngiad amser sydd yn bendant wedi ein helpu drwy COVID-19 ond nid yw'n rhoi unrhyw fanteision strwythurol hirdymor i ni i wella'r gwasanaeth ac mae hynny wedi bod yn broblem fawr. Rwy'n golygu, fel enghraifft, y gwasanaeth iechyd meddwl yn [ALI], mae'r elfen iechyd wedi cael £1.5 miliwn ar gyfer staffio hirdymor, ar gyfer eu gwasanaeth datrys argyfyngau a gwasanaeth un pwynt mynediad a mwy o arian ar gael iddynt. Nid oes dim byd ar gyfer gofal cymdeithasol yn hynny. Dydw i ddim yn deall sut mewn gwasanaeth integredig, os ydym yn edrych i wneud gwaith ataliol, os oes gan y Llywodraeth yr arian hwnnw ar gyfer y gwasanaeth iechyd [...] pam nad yw'n cael ei gynnig i awdurdodau lleol hefyd, neu ar wahân (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4).

- 3.60 Cyfeiriodd eraill at bwysigrwydd sicrwydd ariannol hirdymor y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i ganiatáu cynllunio ac i 'ddod â'r Ddeddf i mewn i'r sgwrs':

Pe bai gennym sicrwydd tymor hwy ynghylch yr arian a gawn gan Lywodraeth Cymru, nid yn unig drwy setliad, ond y grantiau eraill hefyd, byddai'n caniatáu inni gynllunio a dod â'r Ddeddf i mewn i'r sgwrs. [...]. ...os ydych am geisio gweithredu amcanion y Ddeddf, mae'n rhaid ichi wybod, dros gyfnod o amser, y bydd gennych ddigon o arian i'w wneud a bod gwerth mewn gosod cynllun pob awdurdod [...] Heb yr ymrwymiad hwnnw i'r hyn fydd y cyllid a'i fod yn ddigon i wneud yr hyn y mae angen i amcanion y Ddeddf fod, rydych yn gofyn yr amhosibl, fel arall, ar awdurdodau lleol. Ni allwch barhau i flaenoriaethu gofal cymdeithasol uwchlaw popeth arall y mae'r cyngor yn ei wneud (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 1).

Ffactorau cymdeithasol ac economaidd ehangach

- 3.61 Ni ellir gweld y pwysau hyn ar y system y tu allan i bwysau cymdeithasol, economaidd ehangach fel y mae'r cyfranogwyr a ganlyn yn ei awgrymu:

...y ffactorau eraill yw'r argyfwng economaidd, yr argyfwng costau byw [...]. Mae hyn oll yn cyfrannu at effaith ar y farchnad, nid dim ond y staff a gollwyd gennym o ganlyniad i bobl yn dychwelyd i Ewrop (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, Bwrdd Iechyd, Ardal 2).

...mae'n anodd edrych ar lesiant yng nghyd-destun y pandemig yn unig, rydym wedi dechrau gyda Brexit, rydym wedi cael y pandemig a nawr mae'n edrych fel ein bod yn symud tuag at gyfnod cythryblus iawn [...]. Rwy'n meddwl ein bod mewn cyfnod cythryblus iawn a bod y bwlch mewn llesiant a safon byw yn mynd i ddod yn fwy du a gwyn fyth, y rhai sydd wedi methu a'r rhai sydd heb fod. Rwy'n meddwl cyn Brexit a'r pandemig, ein bod yn gwneud cynnydd da fel gwlad ac roedd polisiâu ar waith ac nid wyf yn siŵr a yw'r polisiâu, yr ymyriadau, y ffordd y mae cyllid cyhoeddus yn cael ei ddyrannu yn mynd i fod yn addas at y diben i ymdrin â llesiant ac ansawdd bywyd am y pum mlynedd nesaf, mae cymaint o ansicrwydd (Uwch-reolwr / Arweinydd strategol, ALI, Ardal 1).

...yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf a chredaf y bydd yn parhau ym maes gofal cymdeithasol oedolion, nid yw'n ymwneud â'r newid yn y dull mewn gwirionedd, mae'n ymwneud yn fwy â demograffeg oedran, mae'n ymwneud â maint y galw ar draul y pandemig, a'r cymhlethdod yr ydym yn ei weld. Mae'n fwy yn y gofod hwnnw ynghyd â gorfod talu cyfraddau cyflog uwch i ddarparwyr (Uwch-reolwr / Arweinydd strategol, ALI, Ardal 3).

3.62 Er bod COVID-19 wedi gwaethygu'r heriau o ran darparu gofal cymdeithasol, megis capasiti'r gweithlu, gwelodd sawl cyfranogwr nad dyna oedd 'yr unig ffactor achosol'. Ffactorau ychwanegol a drafodwyd mewn cyfweiliadau oedd gweithlu sy'n heneiddio, cymhlethdod cynyddol yr angen, cyflogau awdurdodau cyfagos sy'n cystadlu â'i gilydd, rolau y tu allan i'r sector, a chostau byw. Disgrifiwyd y rhain ynghyd â COVID-19 a Brexit gan un cyfranogwr fel: '*y storm berffaith*' (*Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 2*).

Arafu a 'cholli tir' wrth roi'r Ddeddf ar waith

3.63 Oherwydd effeithiau aml-ddimensiwn y pandemig, roedd ymdeimlad nodedig ymhlith cyfranogwyr o 'golli tir' a gafwyd cyn y pandemig, arafiad o'r momentwm blaenorol a gyflawnwyd wrth roi'r Ddeddf ar waith.

3.64 Soniodd y cyfranogwyr am yr hyn y mae effaith y pandemig wedi'i olygu ar gyfer arferion sy'n seiliedig ar berthynas, argaeledd gwasanaethau, a manau i gwrdd, ymgysylltu a chefnogi diwylliannau o gydgyhyrchu a deialog:

Ni fyddwn yn dweud, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, fod y Ddeddf wedi bod ym meddyliau unrhyw un wrth wneud penderfyniadau ar yr hyn yr ydym am ei wneud. Mae naill ai wedi bod yn ymateb i'r argyfwng neu'n ymateb i, "allwch chi wario'r arian parod hwn?" (*Uwch-reolwr / Arweinydd strategol, ALI, Ardal 1*).

...yn ystod y pandemig, bu symudiad tuag yn ôl oddi wrth gydgyhyrchu.

Roeddwn yn deall y rhesymeg drosto. Daeth yn anoddach i bobl gyfarfod, i gael yr amser i'w wneud. Roedd pobl yn canolbwyntio'n fawr ar argyfwng, felly daeth arfer strategol yn fwy adweithiol (*Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2*).

Nid ydym yn agos at y man lle mae angen inni fod, ddim yn agos o gwbl. Ar yr adeg honno cyn COVID-19, roeddem wedi sefydlu paneli adnoddau neu grwpiau trafod adnoddau os dymunwch gyda'n rheolwyr rheng flaen, rheolwyr gweithredol yr ydych yn eu hadnabod i siarad am ddata, i siarad am ystadegau, i siarad am berfformiad. Mae'r diwylliant wedi newid (*Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4*).

3.65 Codwyd yr effeithiau andwyol ar weithio mewn partneriaeth, ac yn arbennig gyda'r trydydd sector, gan gyfranogwyr. Nododd y cyfranogwyr fod COVID-19 wedi effeithio'n 'wael' ar y trydydd sector, ac roedd hyn wedi'i gyfuno â'r cyfyngiadau a grybwyllwyd uchod o fewn awdurdodau lleol, gallu cyfyngedig ar gyfer ymgysylltu a meithrin perthnasoedd, yn ogystal ag effeithio'n uniongyrchol ar gapasiti o fewn y trydydd sector ei hun:

...yr hyn yr ydym wedi'i ganfod ar hyn o bryd yw'r hyn yr ydym yn ei weld yw bod y trydydd sector wedi'i effeithio'n wael iawn gan y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'n anodd iawn cynnal deialog (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).

Lle'r oeddem yn eithaf da o'r blaen o ran cyfeirio, wyddoch chi, wrth y ddesg flaen, y wybodaeth a'r cyngor, roedd cryn dipyn o weithgarwch trydydd sector i gyfeirio pobl ato. Rwy'n meddwl ein bod wedi colli hynny (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).

- 3.66 Cydnabuwyd bod angen i drafodaethau cyn-COVID-19 i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r gweithlu 'fynd yn ôl ar y trywydd iawn': *'Roeddem wedi siarad am edrych ar gydweithio a datblygu mwy o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol'* (Rheolwr Gweithredol, Bwrdd Iechyd, Ardal 1). O ran y gweithlu, mae rhai awdurdodau lleol wedi gweld newid yn y ffocws gwaith. Fel y disgrifir gan y cyfranogwr isod, priodolwyd hyn i'r newid o 'rôl galluogi i rôl gofalu' mewn ymateb i'r pandemig. Mewn ymateb, roedd yr awdurdod wedi rhoi rhaglen ar waith i 'ailhyfforddi ac ailffocysu' staff, a gafodd dderbyniad cadarnhaol:

...oherwydd y gostyngiad yn nifer y lefelau staffio, rwy'n meddwl bod staff wedi cymryd mwy o rôl gofalu yn hytrach na rôl galluogi [...]. Gwelsom effeithiau eithaf sylweddol ac rwy'n meddwl mai un o'r heriau mewn gwirionedd yw symud staff o'r rôl gofalu honno yn ôl i rôl galluogi, a'r hyn rydym wedi'i wneud yw ein bod wedi'i hailgychwyn ac rydym wedi cyflwyno model cymorth o'r enw cymorth gweithredol sy'n ailhyfforddi ac yn ailffocysu staff ar fod yn alluogwyr yn hytrach na gofalwyr ac a dweud y gwir [...] cafodd hynny effaith gadarnhaol iawn ar gymhelliant staff, cadarnhaol iawn (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).

Galw cynyddol a chymhlethdod mewn pecynnau gofal a chymorth

- 3.67 Mae'r galw cynyddol am ofal a chymorth a chymhlethdod cynyddol yr angen yn gwaethygu'r problemau o ran capasiti'r gweithlu – a godwyd fel mater sydd wedi arafu'r cynnydd tuag at weithredu'r Ddeddf:

Ni allwn fodloni'r galw presennol, ac mae'r galw yn mynd y tu hwnt i'r capasiti sydd gennym yn gyflym iawn, iawn (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).

Wrth siarad am y galw, mae llwyth achosion yn ein timau o ble roedden ni yn 2019 wedi dyblu (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 3).

Rydym wedi asesu angen ac ni allwn ei ddiwallu. Rwyf wedi gwneud ymhell i mewn i dri deg o flynyddoedd o waith cymdeithasol, ac nid wyf erioed wedi gweld unrhyw beth fel hyn (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, Bwrdd Iechyd, Ardal 2).

Mae nifer yr achosion lle mae trais domestig yn nodwedd [wedi cynyddu] ac mae diffygion yn y gwasanaeth hwnnw a ddarperir. Felly, er enghraifft, [mae] diffygion yn ymwneud â darparu gwasanaethau i gyflawnwyr trais domestig yr ydym wedi tyngu sylw atynt fel mater (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).

Mae gennym ni bobl sydd angen cymorth na allant gael mynediad i'n gwasanaethau o gwbl, beth bynnag y maent yn ei wneud, oherwydd nid oes gennym unrhyw bobl. Ni allwn gael gweithwyr cymdeithasol, ni allwn gael staff gofal, felly rydym yn gweithredu ar fwyafrif bychan (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4).

- 3.68 Wrth wraidd yr her mae grymoedd deuol cymhlethdod cynyddol anghenion, ynghyd â phrinder adnoddau a darpariaeth arbenigol. Roedd eironi ym marn rhai cyfranogwyr bod y pandemig mewn rhai ffyrdd wedi golygu bod achosion mwy cymhleth yn cael eu trin gartref, a dyna mae cyfeiriad a bwriad y polisi am ei gyflawni. Fodd bynnag, roedd effaith arafach y ddau rym yn gweithredu ar y cyd yn golygu na ellid gwireddu bwriad y Ddeddf: *rwy'n meddwl ei bod yn teimlo'n fawr iawn bod gennym unigolion mwy cymhleth gartref, sef yr hyn yr ydym ei eisiau yn fawr, y bobl i aros adref yn hirach. Ond nid wyf yn gwybod a oedd y strwythurau a'r capasiti o fewn ein hunedau darparu ac ati yno i allu ymdrin â hynny (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 1).*

Cyflymu ac 'ennill tir' wrth roi'r Ddeddf ar waith

- 3.69 Yn dilyn yr adran flaenorol lle canfuwyd bod cyflymder gweithredu wedi'i arafu gan COVID-19, roedd llawer o enghreifftiau hefyd o'r gwrthwyneb yn digwydd. Yng ngeiriau un cyfranogwr, roedd y pandemig yn 'felltith' ac yn 'gyfle' (Rheolwr Gweithredol, Sector Gwirfoddol, Ardal 1).
- 3.70 Gyda dyfodiad COVID-19, ac o reidwydd, cyflymodd rhai cyfranogwyr fentrau yn y camau cynllunio cynnar:

COVID-19, fe gymerodd ni ymlaen tua 10 mlynedd dros nos [...] Mae wedi gwneud i ni ailedrych o ddifrif ar yr hyn rydyn ni'n ei wneud, beth yw canlyniadau a dibenion rhai o'r tasgau rydyn ni'n eu cyflawni (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 1).

...nid yw'r pandemig wedi bod yn amser i'n cyfeiriad teithio gael ei atal mewn unrhyw ffordd, siâp neu ffurf [...]. Mewn rhai ffyrdd mae'n parhau ar gyflymder uffernol, o bosibl yn gyflymach nag y byddai wedi bod yn wir oherwydd bod angen weithiau am ymateb cyflymach (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 3).

3.71 Rhoddwyd un enghraifft yn ymwneud â darparu cymorth iechyd meddwl ac ymyrraeth gynnar – ysgogodd y pandemig y gwaith i wneud i hyn ddigwydd: *roedd yn bethau yr oeddem yn meddwl amdanynt cyn y pandemig ac nid wyf am ei alw'n gyfle oherwydd mae hynny'n defnyddio'r gair anghywir i ryw raddau, mae'n debyg bod y pandemig wedi ein gorfodi i flaenoriaethu a gwthio'r darn hwnnw o waith ymlaen (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 3).*

3.72 Yn rhannol, hwyluswyd y cyflymiad hwn gan fod pobl yn cael y 'caniatâd' i wneud pethau'n wahanol, gyda llai o fiwrocratiaeth a mwy o ymdeimlad o ymreolaeth i ailwerthuso, archwilio a gweithredu ffyrdd amgen o weithio fel anghenraid absoliwt i ymdrin ag effeithiau'r pandemig:

Mae'n debyg [yr hyn] y mae'r pandemig wedi'i ganiatáu, yw caniatâd mewn gwirionedd, mae wedi rhoi caniatâd inni edrych ar bethau'n wahanol nad oedd yn ôl pob tebyg o reidrwydd bob amser yn wir yn wleidyddol [...]. Rydym yn edrych ar fodolau darparu newydd, rydym yn edrych ar berthnasoedd newydd gyda darparwyr, mwy o gydweithio â darparwyr ac rydym yn edrych ar gyfuno taliadau uniongyrchol a phethau felly, wyddoch chi, atebion creadigol, arloesol (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4).

Yr hyn yr oedd y pandemig yn ei olygu oedd fod pawb, yn sydyn iawn, wedi neidio yn syth i mewn i dechnoleg ac roedd hynny'n hynod ddiddorol oherwydd pe byddem wedi ceisio cyflwyno [Microsoft] Teams ar draws, wyddoch chi, ein hysgolion, addysg, iechyd, pawb, byddai wedi cymryd blynyddoedd a blynyddoedd a blynyddoedd a byddem i gyd yn defnyddio gwahanol bethau (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4).

Rwy'n meddwl ein bod ni wedi dod yn llai biwrocraidd fel sefydliad, rydw i wir yn gwneud hynny, ac mae gennym ni lawer mwy o ryddid i wneud yr hyn sy'n iawn heb y miloedd o rwystrau a chydbwysedd (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).

Rwy'n meddwl bod rheidrwydd wedi ein galluogi i fwrw ymlaen ag ef yn gyflym. Wyddoch chi, felly rydym ni, y trydydd sector a'n math o bethau tebyg sy'n

seiliedig ar le, wedi gweithio'n agos iawn gyda'n gilydd ac mae gennym ni gynllun cwbl integredig ar dudalen rydyn ni'n ei defnyddio ar gyfer ein bwrdd partneriaeth ac mae'n ymwneud â pherson a lle (Uwch-reolwr / Arweinydd strategol, ALI, Ardal 3).

Roeddem wedi bod yn ceisio gweithredu dull cyfathrebu cydweithredol ar gyfer gwaith cymdeithasol a gwasanaethau oedolion. Rwy'n meddwl bod y pandemig wedi gorfodi'r mater hwnnw ychydig, ein bod wedi gorfod chwilio am atebion eraill i nodi canlyniadau personol pobl neu'r canlyniadau llesiant. Felly, mae wedi'i orfodi ychydig ac rwy'n meddwl ein bod wedi gweld tystiolaeth dda iawn o hynny gan ein hymarferwyr hefyd, o'r trafodaethau hynny sy'n seiliedig ar gryfderau ac atebion i ganlyniadau (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4).

- 3.73 Unwaith eto, yn wahanol i'r enghreifftiau uchod lle arafodd y pandemig bartneriaethau ar draws sectorau, gan gynnwys y trydydd sector, darparwyd enghreifftiau eraill o gyflymu partneriaethau a chryfhau gweithio integredig. Rhoddwyd enghreifftiau penodol o fathau o weithio integredig na fyddai wedi bod yn bosibl yn flaenorol:

Rydym wedi gallu sefydlu grŵp diogelu pediatrig o fewn adrannau damweiniau ac achosion brys, ni fyddem byth wedi gallu ei wneud [cyn] [...]. Rydym yn cael yr ymgynghorwyr ar draws safleoedd, ni fyddem wedi gallu ei wneud, byddech wedi cael y person yr oeddech ei eisiau a fyddai â'r diddordeb mwyaf wedi arwain arno. Yn awr, mae pob safle yn prynu i mewn (Rheolwr Gweithredol, Bwrdd Iechyd, Ardal 2).

Un o'r pethau cadarnhaol a wnaethom yn ystod COVID-19 oedd ein bod, mewn gwirionedd, wedi ailstrwythuro, credwch neu beidio, i ddechrau'r Timau Adnoddau Cymunedol ag iechyd oherwydd, yr hyn a welsom oedd bod oedi, roedd yn mynd i fod yn fwy dylanwadol na'i wneud mewn gwirionedd oherwydd, mewn gwirionedd, roedd hwn yn amser pan oedd angen i dimau gydweithio. Roedd angen i ni sicrhau bod y tîm hwnnw ar gael ar gyfer yr unigolion hynny (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 1).

Roedd [COVID-19] yn bendant yn gatalydd [...]. y pethau yr oeddem yn gallu eu rhoi ar waith rhyngom ni ac iechyd ac [ALI] fel partneriaeth tair ffordd – digwyddodd yn llawer amlach [...] Rwy'n eithaf cadarnhaol y bydd y bartneriaeth rhwng y tri ohonom yn parhau, does dim amheuaeth am hynny. Rwyf wedi gweld

llawer mwy o gefnogaeth gan [Bwrdd Iechyd] nag o'r blaen (Rheolwr Gweithredol, Sector Gwirfoddol, Ardal 1).

Mae ein perthynas â'r trydydd sector o'm safbwynt i wedi gwella yn ystod y pandemig oherwydd rwy'n meddwl ein bod wedi gweithio'n fwy cydweithredol gyda'n cydweithwyr yn y sector sydd wedi bod yn ganlyniad gwych (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4).

Buom yn gweithio'n dda iawn gyda darparwyr; rydym wedi gweithio mewn partneriaeth. Rydym wedi cynllunio a chreu'r gwahanol fathau o wasanaethau ar y cyd. Rydym wedi defnyddio ein cudd-wybodaeth, eu gwybodaeth, ei chyfuno, a chydweithio (Uwch-reolwr, ALI, Ardal 3).

- 3.74 Nodwyd hefyd nifer o effeithiau datgeliadol cadarnhaol y pandemig. Roedd y rhain yn cynnwys gwell cysylltiadau rhwng rheolwyr/gweithlu, rhannu arfer da, yr hyder i weithio'n fwy creadigol gyda defnyddwyr gwasanaeth, a gofalwyr, a chael sgysiau sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Mae fel petai COVID-19 wedi canolbwyntio meddyliau rhai pobl ar beth yw eu prif bryder mewn gwirionedd, neu beth sydd bwysicaf heddiw. "Beth sydd wedi newid heddiw a barodd ichi godi'r ffôn hwnnw?" Mae'r math yna o ffordd lle rydym yn siarad gyda phobl dros y ffôn dwi'n meddwl wedi bod o help mawr. Felly nawr, heddiw, "beth yw eich prif ffocws?" "Beth sydd bwysicaf i chi heddiw?" (Rheolwr gweithredol, ALI, Ardal 2).

Rwy'n meddwl bod [COVID-19] yn sicr wedi ein gorfodi i edrych ar sut y gallwn wneud hyn yn wahanol, wyddoch chi, yn ystod y pandemig ac arweiniodd hynny at sgysiau ag unigolion am yr hyn y gallent ac na allent ei wneud, yr hyn yr oeddent am ei wneud a beth doedden nhw ddim eisiau gwneud a stwff felly [...]. Rwy'n meddwl bod honno'n etifeddiaeth a gynhelir ac mae hynny'n sbardun yn y [Ddeddf] ac yn rhoi gweithrediad i bobl a phopeth yn eu bywydau. Ac mae wedi gwneud i ni barhau i ofyn y cwestiynau hynny wrth i ni ddod allan o COVID-19. Er ein bod yn ceisio gofyn y cwestiynau hynny o'r blaen, dangosir pwysigrwydd gofyn a'r wobwr y gallwch ei chael, ni a'r gofalwyr, a gall y rhai sy'n derbyn unrhyw wasanaeth ei gael o ofyn y cwestiynau hynny (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 4).

Yr hyn yr ydym yn ei ganfod yn awr yw, trwy gadw'r person-ganolog a chanolbwyntio'n iawn ar ganlyniadau ein bod yn gallu gwneud pethau mewn

ffordd fwy creadigol nag y byddem wedi meddwl a fyddai hyd yn oed yn bosibl cyn y pandemig (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 2).

3.75 Roedd cyfyngiadau ar y gwasanaethau cymunedol a gynigir yn ystod y pandemig a'r cyfnodau clo cysylltiedig wedi arwain at rai awdurdodau lleol yn symleiddio prosesau a datblygu atebion creadigol, fel mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol: *Fe wnaethom greu proses taliadau uniongyrchol carlam fel y gallem dalu teuluoedd heb iddynt orfod mynd trwy amryw o gylchoedd. Felly, pe bai pobl yn sownd yn yr ysbyty ac nad oedd unrhyw ofal, fe allech chi ddweud, "a oes rhywun a all ofalu amdanoch chi?" ac ni allant oherwydd eu bod yn gwneud hyn neu'r llall, "o, byddwn yn eu talu, neu gallwch chi eu talu. Byddwn yn rhoi'r arian i chi eu talu i ofalu amdanoch nes y gallwn gael gofal i mewn" (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 2).*

3.76 Gan adeiladu ar y cyflymiad hwn o amgylch taliadau uniongyrchol, cyfeiriodd awdurdodau lleol at newid o ddiffyg ymddiriedaeth yn y modd y caiff taliadau uniongyrchol eu gwario, i fwy o hyblygrwydd, gan alluogi atebion creadigol ac ymarferol i deuluoedd:

Nid wyf yn meddwl efallai y byddem wedi cyd-fynd ag ysbryd y Ddeddf o ran ymddiried mewn pobl i ddefnyddio eu taliadau uniongyrchol yn eu ffordd eu hunain i gyflawni eu canlyniadau. Rwy'n meddwl oherwydd bod y byd i gyd wedi newid yn y bôn yn ystod COVID-19, rydym wedi gorfod bod yn llawer mwy creadigol gyda theuluoedd [...]. Mewn ffordd rwy'n meddwl bod y pandemig wedi ein gwthio i mewn i hynny (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).

Pan ddywedodd y gofalwr 'Ni allaf ymdopi mwyach, ni allaf wneud hyn a'r llall, ni allaf ofalu am Mam a chadw i fyny gyda'r holl olchi dillad hwn oherwydd ni allaf fynd ag ef i unrhyw le, beth ddylwn i ei wneud?' Roeddwn yn dweud 'wel all eich cymydog ei olchi, wel gadewch i ni dalu i'ch cymydog i'w olchi felly' (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4).

3.77 Mewn rhai achosion, trwy ddefnydd cynyddol o dechnoleg ddigidol, cyflymwyd dulliau o wella gwaith amlasiantaethol a rhannu gwybodaeth, a chynnal gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar hefyd: *Mae ganddynt dimau amlddisgyblaethol ffurfiol bob wythnos yn y timau hyn ac mae'r Meddygon Teulu yn ymuno yn rhithwir. Dyma fantais fawr y pandemig, y gallu i gwrdd yn rhithwir, ac mae Meddygon Teulu yn ymuno â'r cyfarfodydd hyn, a staff proffesiynol eraill, yn*

eithaf hawdd. Y gallu hwnnw yn unig yw bod yn ymatebol a rhagweithiol (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 2).

- 3.78 Cyfeiriwyd yn gadarnhaol ar y cyfan tuag at symudiad at fwy o ddefnydd o dechnoleg i barhau i gefnogi ac ymgysylltu ag unigolion, gofawyr, a theuluoedd a hynny'n aml ymhlith cyfranogwyr, gan ei fod weithiau'n arwain at ganlyniadau na fyddent wedi'u cyflawni mewn ffordd 'analog' o weithio wyneb yn wyneb.

Rhoddodd rhai Cyngorau y gorau i gynnig cyswllt i rieni plant sy'n derbyn gofal ac ni allwch wneud hynny, mae'n anghyfreithlon. Felly, daethom yn greadigol ac roedd hynny'n cynnwys lle y gallem fod wedi gorfod gwario ar iPads neu lechi Samsung i bobl weld eu plant mewn ffordd rhithwir (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 1).

Ni allai fy nhîm gwaith cymdeithasol fynd i mewn i'r carchar yn ystod y cyfnod clo, a achosodd gymhlethdodau ychwanegol inni wedyn ynghylch ffordd ddiogel o gyfathrebu â'r carcharorion [...]. Wrth i'r carchar sylweddoli ein hanawsterau, a bod angen inni siarad â'r carcharorion, daethant â nifer o iPads ychwanegol i garcharorion eu defnyddio dan oruchwyliaeth i siarad â'm gweithwyr cymdeithasol. Felly o leiaf gallem wedyn gynnal yr asesiadau rhithwir a gwranddo ar yr hyn yr oeddent yn ei ddweud (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).

Gwnaethpwyd llawer o'n [gwaith] yn rhithwir. Rwy'n meddwl bod rhywbeth am hynny'n eithaf anarferol oherwydd ei fod yn gweithio'n well i rai teuluoedd. Felly roedd cynnal cyfarfodydd a chael sgysiau drwy'r cyfryngau hyn, neu hyd yn oed dros y ffôn mewn gwirionedd, wedi helpu teuluoedd i ymgysylltu'n well yn fy marn i. Nid pawb. Nid oedd yn siwtio pawb, ond rwy'n meddwl bod cael y sbectrwm hwnnw yn beth da (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4).

Roedd y ffordd y gwnaethom ymgysylltu â phobl ifanc, mewn gwirionedd, yn dangos eu bod yn eithaf hoff o ddefnyddio technoleg. Roedd yn llawer mwy hyblyg iddynt, yn llai anhyblyg. Maen nhw ar yr oedran hwnnw yn eu bywyd lle nad ydyn nhw o reidrwydd eisiau cael ymweliad ar yr adeg hon yn y lle hwn (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 2).

- 3.79 Fodd bynnag, cydnabuwyd priodoldeb a risgiau posibl cynnal rhai mathau o gyfarfodydd megis cynadleddau amddiffyn plant ar-lein: *Gorfod ymgysylltu'n rhithwir, a gall hynny fod yn eithaf anodd, yn enwedig pan fyddwch yn meddwl am*

rai o'r achosion cam-drin domestig lle mae gennych chi ddau riant sydd â hanes o gam-drin domestig (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 1).

- 3.80 Yn ogystal, cyfeiriwyd at y graddau yr oedd asesiadau rhithwir ac ymweliadau cartref yn effeithio ar lais a rheolaeth, a meithrin perthnasoedd: ...*nid oeddwn yn cael llawer o lais y plentyn mwyach ac os meddylwch os yw rhywun yn cysylltu â'r teulu neu'n ymgymryd ag asesiad trwy alwad ffôn neu fideo, yn aml, "Gwelwyd y plentyn yn y cefndir. Nid oedd y plentyn eisiau dod at y ffôn. Nid oedd y plentyn eisiau cymryd rhan"* (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 2).

Parhau â'r daith

- 3.81 Er gwaethaf yr holl heriau a brofwyd gan y gweithlu yn ystod y pandemig, roedd y trosiad o barhau â'r daith tuag at weithredu'r Ddeddf yn llawn yn aros yn gyson i rai cyfranogwyr. Amrywiodd safbwyntiau o ran ble'r oeddent ar eu taith a'r gwaith sydd ei angen i symud ymlaen yn erbyn egwyddorion ac ethos y Ddeddf.

- 3.82 Roedd cydgynhyrchu, yn benodol, yn faes i ganolbwyntio arno ac i roi sylw iddo:

O ran pethau fel cydgynhyrchu, mae gennym lawer o ffordd i fynd eto mewn perthynas â hynny, rwy'n meddwl, a chredaf fod angen inni edrych ar ddatblygu pethau (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 1).

Mae parodrwydd, gallwch ei glywed gyda rhai o'r Penaethiaid Gwasanaeth sydd gennym nawr wyddoch chi, sut ydych chi'n mynd i gydgynhyrchu hyn? Felly, mae yno, nawr mae sut rydyn ni'n mynd ati yn dibynnu ar yr hyn rydyn ni'n ceisio ei wneud yn tydi? (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4).

Roeddwn yn benderfynol o ddechrau cydgynhyrchu taliadau uniongyrchol yn [ALI]. Dywedais er mwyn cyd-gynhyrchu, mae'n rhaid i mi gwrdd â phobl [...] roedd yn rhaid i bobl rannu eu profiadau. Yna roedd yn rhaid i ni ddweud, "lawn, rydyn ni'n mynd i ddechrau'r daith. Rydyn ni'n mynd i gydgynhyrchu ein strategaeth a'n polisi ar gyfer y dyfodol", sy'n rhywbeth rydyn ni'n ceisio ei wneud. Unwaith eto, mae'n anodd, ond ni wnaethom gofrestru ar ei gyfer oherwydd ei fod yn mynd i fod yn syml, ond rwy'n edrych o gwmpas am yr hyn yr ydym wedi'i wneud o ran cydgynhyrchu a hyd yn oed ymgysylltu yn ystod y 18 mis blaenorol. Ychydig iawn, iawn o hynny oedd yn bodoli (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 2).

- 3.83 Roedd un cyfranogwr wedi cwestiynu'r gallu i benderfynu lle'r oedd ALI ar ei daith. Arweiniodd cyfeirio'n uniongyrchol at y dirwedd sy'n newid yn barhaus ac amodau

gweithredu gwahanol megis cynnydd mewn angen, cyni, ac effaith tlodi, at gwestiynu ai 'yr un daith yw hi' ar ôl COVID-19 (*Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4*).

- 3.84 Serch hynny, er gwaethaf cynnwrf y pandemig, roedd sawl enghraifft o arfer da, gwaith cadarnhaol, a dilyniant ar y daith tuag at roi'r Ddeddf ar waith:

Mae'r ymrwymiad hwnnw yno [...] o ran egwyddorion y Ddeddf. [...] Mae'r buddsoddiad wedi bod yno ac rydym yn gweld o ran gwahanol feysydd ymarfer [...] Rydym yn dechrau cael y dystiolaeth honno yn ôl, rydym yn gweld arfer hynod ddiddorol o ran datblygu darpariaeth i oedolion, o ran y symudiad oddi wrth y cartrefi gofal, o ran yr hyn y gallwn ei wneud a sut y gallwn gynnwys oedolion o ran y darpariaethau sydd yno. Ond mae gennym ni o hyd, o ran rhywfaint o'r adborth rydyn ni'n ei gael, rhai o'r materion rydyn ni'n eu gweld, rhai o'n hadolygiadau ymarfer plant ac oedolion, mae gennym ni rywfaint o waith i'w wneud o hyd (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 1).

Rwy'n meddwl y bydd y math hwnnw o daith o ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau a gwaith sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, nawr ei fod wedi cael ei fachau i mewn, rwy'n meddwl bod pobl yn ei ddeall yn well ac rwy'n meddwl fy mod ychydig yn fwy hyderus nawr ynghylch sut yr ydym yn bwrw ymlaen â hynny yn awr ac yn y dyfodol ar draws ein holl wasanaethau. Rwy'n meddwl bod rhai o'r staff gwaith cymdeithasol efallai, wyddoch chi, wedi'u hyfforddi, rhai o'n staff gofal cartref, rhai o staff y tîm ailalluogi wedi'u hyfforddi ond nid oedd pawb yn ei ddeall, roedd yn cymryd amser iddo suddo i mewn ac yn awr mae pobl yn gwneud y cysylltiadau. Felly, rwy'n fwy hyderus dros y ddwy flynedd nesaf y bydd y dull hwnnw'n dod yn fwyfwy sefydledig (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4).

Mae ein partneriaeth o amgylch hynny [atal], wyddoch chi, wedi gwneud llawer iawn yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Gwn inni sôn am fanteision gweithio gyda'r trydydd sector ond mewn gwirionedd mae'n ehangach, gyda llwybrau cymunedol gyda mentrau lleol. Rwy'n meddwl bod llawer o waith a chyfluoedd wedi bod yno a gobeithio y gallwn adnewyddu ac ail-fframio'r hyn a welwn wrth symud ymlaen (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 4).

Canlyniadau personol yw conglaen y Ddeddf, yr hyn sydd bwysicaf. [...]. Mae [COVID-19] wedi cael effaith ond mae'r bwriad cyffredinol yn y pen draw i barhau i symud at hynny yn bwysig, ac mewn gwirionedd yn seiliedig ar gryfder eto, yn bwysig, ac rydym yn dal i symud at hynny [...]. Mae'r cyfeiriad cyffredinol yn dal i

fod yno, mae'n dal i gael ei flaenoriaethu, mae'n dal i gael ei gydnabod (Uwch-reolwr, ALI, Ardal 3).

- 3.85 Amlygwyd nifer o ffactorau fel rhai yr oedd angen eu hystyried/blaenoriaethu er mwyn gallu symud ymlaen â'r 'daith' tuag at weithredu.

Integreiddio

- 3.86 O fewn yr is-thema hon, darparwyd enghreifftiau o sut yr oedd awdurdodau lleol ar draws Cymru, mewn theori, yn mabwysiadu'r un modelau gofal a chymorth, ond yn dal i'w rhoi ar waith mewn '22 o wahanol ffyrdd'.
- 3.87 Nodwyd nad yw'r dyheadau o weithio 'gwirioneddol integredig' ymhlith partneriaid iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a phartneriaid eraill, lle mae pawb yn gweithio i'r un gwerthoedd ac egwyddorion, wedi'u gwireddu eto: *Efallai ei fod ar bapur yn ddarn cynhwysol o ddeddfwriaeth, ond, yn y byd go iawn mewn perthynas â'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad, ac rwy'n meddwl weithiau mai dyna lle mae deddfwyr yn tueddu i anghofio beth sy'n digwydd mewn amodau gweithio go iawn. [...] Rydym wedi bod cymaint i mewn i'r Ddeddf a'r holl hyfforddiant hynny a phopeth a wnaethpwyd, ond nid oedd yn gynhwysol (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 1).*
- 3.88 O fewn awdurdod lleol arall, er bod perthnasoedd ac arfer rhwng iechyd a gofal cymdeithasol wedi gwella, roedd integreiddio llawn yn parhau i fod yn annaliadwy: *Nid ydym o hyd, wyddoch chi, wedi integreiddio'n iawn nac yn comisiynu gwasanaethau ar y cyd yn yr ystyr hwnnw ac rwy'n meddwl bod hynny'n wleidyddol (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4).*
- 3.89 Yn yr un modd, tynnodd rheolwr o ALI arall sylw at gynnydd o ran perthnasoedd â'r trydydd sector. Mewn cyferbyniad, mae diffyg cynnydd o ran cefnogaeth iechyd yn parhau:

Rydyn ni wedi datblygu cryn dipyn o brosiectau gyda nhw [y trydydd sector] i barhau â hyn felly rwy'n meddwl ein bod ni lawer ymhellach i ffwrdd nawr nag yr oeddem ni. Ar gyfer fy nghydweithwyr iechyd, nid wyf yn meddwl ein bod ymhellach i ffwrdd oherwydd nad ydynt erioed wedi cael hyfforddiant ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant hyd yn oed, ac maent yn dal i feddwl nad yw'n ddim i'w wneud â nhw (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).

- 3.90 Nodwyd gwerth casglu a harneisio'r dysgu a'r profiadau o'r pandemig i ganolbwyntio gofal cymdeithasol o fewn system integredig ehangach:

Mae hyn fel eiliad mewn amser ac unwaith y bydd y foment hon wedi'i cholli, os na fyddwch yn cyflwyno'r achos yn iawn nawr dros ofal cymdeithasol efallai na fyddwch byth yn ei gael eto yn y degawd neu ddau nesaf. Felly mae'n rhaid i chi ei fachu ar hyn o bryd a gwneud y gwaith yn iawn oherwydd mae llawer o'r darnau o'r jig-so, maen nhw fel paent yno neu mae llawer o'r meddwl wedi'i wneud, mae angen dod ag ef at ei gilydd mewn ffordd lawer mwy cydlynol [...] Mae'n rhaid i ni weithio drwy'r achos busnes hwnnw. Mae'n rhaid i ni weithio gydag iechyd ar y sgwrs hon. Does dim pwynt adeiladu'r achos busnes hwnnw yno dros ddyfodol gofal cymdeithasol, mae'n rhaid ei wneud mewn modd ynysig fel awdurdod lleol a'i daflu i Lywodraeth Cymru oherwydd y wleidyddiaeth, mae'n wleidyddiaeth anwastad yn dydi (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 3).

- 3.91 Ystyriwyd bod yr angen am adnoddau digonol (ariannol, gweithlu, sefydliadol, systemau) i ddarparu arlwy gofal cymdeithasol sy'n gymesur ag egwyddorion y Ddeddf yn hanfodol er mwyn cynnal system iechyd a gofal sydd wedi'i 'diogelu at y dyfodol' ac sy'n 'gyfan':

Rwy'n meddwl bod hyn i gyd yn dibynnu ar fod angen gweledigaeth gyffredin ar gyfer Cymru. Rwy'n meddwl bod 'Cymru Iachach' wedi ceisio gwneud hynny, ac rwy'n meddwl bod yr adolygiad seneddol wedi siarad yn eithaf da ac yn gydlynol am y system gyfan, ymyrraeth gynnar ataliol, timau'n gweithio o amgylch pobl, gofal cydgysylltiedig – mae'r cyfan yno; mae esgyrn yno. Yr hyn nad yw yno yw sut y caiff ei drefnu a'i gomisiynu a'r adnoddau sydd ar gael (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 2).

Mae un yn gweithio ar sut beth yw system gofal cymdeithasol gynaliadwy ar gyfer y dyfodol yng Nghymru, a bydd hynny'n caniatáu inni gyflawni'n briodol ar yr agweddau craidd yn y Ddeddf Llesiant. Rwy'n meddwl ei fod yn faes y gellir ei herio mewn gwirionedd, wrth geisio taro'n pennau gyda'n gilydd ond rydym yn gwneud rhywfaint o gynnydd (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 3).

Mae ein gweithlu gwych wedi cwyno'n eithaf uchel am ein systemau, sef cyflwyniad System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS). Nid ydym yno eto gyda'n data perfformiad a rheoli o fewn y system honno, mewn geiriau eraill, y gwall mewnbynnu yn aml ydyw, oherwydd bod gan y system sawl ffordd wahanol o fewnbynnu deunydd gwahanol, yna ni all y tîm perfformiad ei dynnu allan felly mae gennym rhyw fath o swyddogaethau gweithredol main i roi'r

asesiad hwnnw i mewn. Rwy'n meddwl, unwaith y byddwn wedi cael hynny a bod gwahanol rannau o'r sefydliad yn siarad â'i gilydd drwy'r plattform WCCIS hwnnw, rwy'n meddwl y byddwn mewn sefyllfa well i fesur ein data a'i ddathlu (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 4).

- 3.92 Yn gadarnhaol, bu rhai cyfranogwyr yn trafod y cyfle i drawsnewid a ddaw yn sgil y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol newydd. O'i gymharu â chyllid tymor byr nodweddiadol a dderbyniwyd yn flaenorol, un o'r nodweddion allweddol yw'r cyfnod ariannu o bum mlynedd, gan alluogi mwy o ymdeimlad o sicrwydd ac amser i adeiladu gwasanaethau cynaliadwy gyda phartneriaid: *credaf fod y RIF newydd wedi rhoi gwir sicrwydd inni. cyfle i drawsnewid, oherwydd mae'n gronfa bum mlynedd, mae wedi'i gwarantu am bum mlynedd, mae'n golygu pethau fel y gallwn wneud swyddi'n barhaol, yn hytrach na'r stopio a cychwyn yr ydym wedi'i gael gyda phobl ar gontractau tymor byr yn gadael. Felly, mae'n rhoi sicrwydd gwirioneddol i'r strwythur, ond mae hefyd yn rhoi sicrwydd i ni i'r partneriaid o gwmpas wybod bod gennym bum mlynedd i wneud hyn. Nid yw'n achos o, rydym yn cynllunio ar gyfer blwyddyn, rydym yn cyflawni, ac yna rydym yn ei gloi, sef yr hyn sydd wedi bod yn digwydd (Rheolwr Gweithredol, Sefydliad Rhanbarthol, Ardal 1).*

Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

- 3.93 Wrth ddod allan o'r pandemig, teimlwyd bod angen 'ailwampio' ynghylch ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r Ddeddf er mwyn helpu i reoli disgwyliadau'r cyhoedd ar ddarpariaeth statudol:

Tybiaf ei fod yn ymwneud ag ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Ddeddf hefyd, ac nid rhwymedigaethau statudol iechyd a gofal cymdeithasol yn unig. Mae'n ymwneud â disgwyliadau hefyd [...]. Rwy'n meddwl, yn gyhoeddus, inni ymateb mewn ffordd wahanol iawn ddwy flynedd yn ôl i nawr yn ôl i'r disgwyliad hwnnw o fod eisiau popeth. Rwy'n meddwl bod yna gydbwysedd yn rhywle rhwng yr hyn y gall y cyrff statudol ei gyflawni, a'r hyn a ddisgwylir gan y gymuned honno. [...]. Wn i ddim a oes angen ailwampio rhywfaint o'r drafodaeth honno hefyd, ac rwy'n meddwl nad ydym yn gwneud hynny'n dda iawn ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol ar hyn o bryd oherwydd nid ydym yn cael y trafodaethau hynny â phobl (Rheolwr Gweithredol, Bwrdd Iechyd, Ardal 1).

- 3.94 Tynnwyd sylw hefyd at yr angen am fwy o ddealltwriaeth o fewn iechyd a gofal cymdeithasol o'u cyfrifoldebau o dan y Ddeddf fel rhywbeth sydd angen ei gryfhau

drwy 'ail-addysgu'. Roedd y profiadau a drafodwyd yn cynnwys diffyg dealltwriaeth o asesiadau sy'n seiliedig ar gryfder, arfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, rheoli risg, a thuedd o ddull gwrth-risg a dull meddygol, sy'n groes i'r Ddeddf:

...y ddealltwriaeth o'r comisiynu, asesu unigolion, eu cryfderau, eu galluoedd, rheoli risg, hawl pobl i wneud penderfyniadau annoeth a'r holl ddadleuon cyfreithiol hynny, nid yw'r Gwasanaeth Iechyd yn ei ddeall yn iawn (Rheolwr Gweithredol, ALI, Ardal 2).

...mae yna ran sylweddol o'r Gwasanaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n dal i weithio mewn ffordd feddygol [...]. Felly, rydym yn dal i gael llawer o ddulliau gwrth-risg tuag at unigolion sy'n gwrth-ddweud yr hyn sy'n digwydd yn y Ddeddf. Felly, o ran rheoli risgiau iechyd corfforol a meddyliol, a'r math hwnnw o bethau, ac yn wleidyddol hefyd, wyddoch chi, mae pobl yn amharod iawn i gymryd risg o ran unigolion, ac mae'n debyg bod angen ychydig mwy o hwb arno [y Ddeddf], mewn gwirionedd, o ran ail-addysgu pobl (Uwch-reolwr / Arweinydd Strategol, ALI, Ardal 2).

4. Sylwadau Terfynol

4.1 Wrth gloi'r adroddiad hwn, mae'n briodol myfyrio'n ôl ar rôl yr egwyddorion yn y naratif a'r disgwrs a roddwyd gan y 60 aelod o'r gweithlu a gymerodd ran yn y cam hwn o'r astudiaeth.

Perthnasedd parhaus egwyddorion y Ddeddf

- 4.2 Cafodd perthnasedd meddylfryd sylfaenol y Ddeddf ac egwyddorion y Ddeddf ei ailddatgan dro ar ôl tro, ond roedd y pwysau a achoswyd gan y cyd-destun heriol ac a waethygyd gan y pandemig wedi newid y sefyllfa i lawer.
- 4.3 Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod bod yr egwyddorion yn dal i fod yn rhan hanfodol o stori'r Ddeddf, ond roedden nhw'n cydnabod bod yna lu o resymau pam efallai nad yw pobl yn 'derbyn' budd llawn yr hyn y gall yr egwyddorion ei gynnig. Er bod hyn yn heriol cyn COVID-19, awgrymwyd ei bod yn arbennig o anodd ar yr adeg y cynhaliwyd y cyfweiliadau hyn.
- 4.4 At ei gilydd, roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod elfennau allweddol egwyddorion a dull gweithredu'r Ddeddf yn dal i fod yno, ac roeddent yn cydnabod bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ers 2016 o ran meddwl am union sail y sgysiau sy'n sail i waith cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth bod angen ailadeiladu.
- 4.5 Roedd rhai yn gweld y Ddeddf ei hun fel un o hanfodion y pandemig, gan gynnig cyfeiriad a sicrwydd ynghylch darparu cymorth. Awgrymodd rhai pobl fod y pandemig fel arbrawf naturiol, prawf straen ar gyfer athroniaeth sylfaenol y ddeddfwriaeth. Roedd gwneud yr hyn roedd y Ddeddf yn gofyn amdano drwy fynd yn ôl at y pethau sylfaenol a chanolbwyntio ar 'yr hyn sy'n bwysig' yn ffordd o adeiladu ar gryfderau a chadarnhau pwysigrwydd y dull o gadw pobl yng nghanol popeth.
- 4.6 Roedd gwaith a wnaed cyn y pandemig i ymgorffori'r Ddeddf yn golygu bod ymarferwyr yn teimlo, ar y cyfan, mewn sefyllfa dda i fod yn ystwyth a rheoli heriau rhyfeddol COVID-19. Roedd y sylfeini y codwyd popeth arnynt yn sefyll yn gadarn.

Adferiad

4.7 Fel y dangoswyd drwy gydol yr adroddiad hwn, roedd yr effeithiau andwyol a brofwyd gan awdurdodau lleol oherwydd y pandemig yn niferus. Roedd y

cyfranogwyr yn cydnabod y gwaith adfer helaeth sydd ei angen, pwysigrwydd hanfodol mynd trwy broses o adferiad, er mwyn cronni wrth gefn fel y bydd niwed yn cael ei leihau ac y bydd pobl yn cael eu cefnogi'n effeithiol

- 4.8 Diflannodd llawer o grwpiau cymunedol gyda'r pandemig a chydabu'r cyfranogwyr fod 'tir' sylweddol i'w wneud i fyny o ran gwaith ataliol mewn cymunedau, ochr yn ochr â ffyrdd cydgynhyrchiol o weithio.
- 4.9 Er gwaethaf yr heriau a ddiodefwyd, a maint yr her adferiad, mynegwyd optimistiaeth a phositifrwydd ymhlith y cyfranogwyr. I rai, gweithredodd COVID-19 fel sbardun i wneud pethau'n wahanol, ail-gydbwyso'r sector, a chreu mwy o sylfaen gyfartal rhwng gofal cymdeithasol ac iechyd. Roedd enghreifftiau eraill o'r meddylfryd hwn yn cynnwys optimistiaeth i barhau i ddatblygu partneriaethau gwell, dysgu ar y cyd, ac yn gyffredinol i ddychwelyd i fusnes.
- 4.10 Wrth barhau â'r newid a gafwyd mewn ymateb i COVID-19, cydnabuwyd bod angen newid rhai agweddau cyn y pandemig, ac ar ôl gwneud newidiadau, ni ddylai fod unrhyw gwtogi. Yn hytrach na dychwelyd i arfer blaenorol – sy'n awgrymu bod ffyrdd o weithio yn well na'r mathau newydd o ymarfer – mae angen gweld y profiad fel cyfle i adeiladu a gwella ar yr hyn sy'n bwysig.
- 4.11 Roedd addasu i'r pandemig drwy weithredu dulliau a mentrau creadigol newydd yn hybu'r math o gymorth yr oedd awdurdodau lleol a sefydliadau partner yn gallu ei gynnig i bobl. Mewn sawl ffordd, mae egwyddorion y Ddeddf, sy'n sail i hyn oll, wedi profi eu gwydnwch a'u perthnasedd parhaus ar adeg hynod o anodd.

Cyfeiriadau

Braun, V. & Clarke, V. (2006). '[Using thematic analysis in psychology](#)', *Qualitative Research in Psychology*, 3(2), t.77-101.

Creswell, J.W. & Plano Clark, V.L. (2011). *Designing and Conducting Mixed Methods Research*. 2nd edn. Los Angeles: Sage Publications.

Llewellyn, M., Verity, F. & Wallace, S (argr). (2020). *Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Adolygiad llenyddiaeth*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 60/2020. Ar gael yn: [Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014: Adolygiad llenyddiaeth](#).

Llewellyn M., Verity F., Wallace, S. & Tetlow, S. (2021). *Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): gwerthuso prosesau*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 2/2021. Ar gael yn: [Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014: gwerthuso prosesau](#).

Llewellyn, M., Verity, F., Wallace, S. & Tetlow, S. (2022). *Disgwyliadau a Phrofiadau: Safbwyntiau Defnyddwyr Gwasanaeth a Gofalwyr ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 16/2022. Ar gael yn: [Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014: disgwyliadau a phrofiadau](#)

Merriam, S. (2009). *Qualitative Research: A Guide to Design and Implementation*. John Wiley & Sons: San Francisco.

Patton, M. Q. (2018). *Principles-Focused Evaluation - The GUIDE*. New York: Guilford Press

Verity, F., Andrews, N., Blackmore, H., Calder, G., Richards, J. & Llewellyn, M. (2019). *Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: fframwaith ar gyfer newid*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 38/2019 Ar gael yn: [Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014: fframwaith ar gyfer newid](#).

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2011). *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu* – ar gael yn: [Gwasanaethau cymdeithasol: strategaeth](#).

Llywodraeth Cymru (2013). *Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (CYMRU), Memorandwm Esboniadol* Caerdydd – ar gael yn: [Memorandwm Esboniadol](#)

Llywodraeth Cymru (2014). *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#).

Llywodraeth Cymru (2015). *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Rhan 2 Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol)*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014: Rhan 2 Cod Ymarfer \(Swyddogaethau Cyffredinol\)](#).

Llywodraeth Cymru (2020). *Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: [Mesurau perfformiad gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer awdurdodau lleol](#).

Atodiad 1 – Amserlen cyfweiliadau

Cyflwyniad

- Sut mae'r pandemig wedi effeithio ar y broses barhaus o weithredu a chyflawni'r Ddeddf?
- Sut mae partneriaethau wedi cael eu heffeithio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf?
- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweld mewn perthynas â'r Ddeddf y gellir eu priodoli i'r pandemig?

Llesiant

- Pa newidiadau yn llesiant dinasyddion ydych chi wedi'u nodi ers i'r Ddeddf ddod i rym?
- Sut ydych chi'n meddwl yr effeithiwyd ar lesiant yn ystod y pandemig?
- Sut ydych chi'n meddwl y gellid gwella llesiant drwy'r cynlluniau gofal a chymorth?

Llais a rheolaeth

- I ba raddau ydych chi'n teimlo bod gan ddinasyddion reolaeth dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain?
- Yn eich barn chi, i ba raddau y gwrandewir ar ddinasyddion wrth drafod eu gofal?
- I ba raddau ydych chi wedi gweld newid yn y berthynas â dinasyddion yn ystod y pandemig?
- A yw'r cydbwysedd pŵer rhyngoch chi a'r dinasyddion yr ydych yn eu cefnogi wedi newid?

Cyd-gynhyrchu

- A ydych yn teimlo bod gan ddinasyddion ran gyfartal yn eu gofal?
- Pa newidiadau sydd wedi digwydd o ganlyniad i ymdrechion i gydgyhyrchu?
- Sut mae cydgynhyrchu wedi cael ei effeithio yn ystod dwy flynedd olaf y pandemig?

Aml-asiantaethol

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweld yn y ffordd y mae gwahanol sefydliadau'n cydweithio?
- Pa effaith y mae gwahanol ffyrdd o weithio yn ei chael ar ddinasyddion, yn enwedig yn ystod y pandemig?
- Beth ddylid ei wneud i ddatblygu ymhellach y berthynas rhwng gwahanol asiantaethau?

Atal

- Beth sydd wedi newid ers i'r ymagwedd fwy ataliol at ofal cymdeithasol gael ei rhoi ar waith?
- I ba raddau ydych chi'n teimlo eu bod yn cael eu hatal rhag bod angen lefelau uwch o gefnogaeth?
- Sut mae gwaith ataliol wedi cael ei effeithio yn ystod y pandemig?

Cyffredinol

- Pa mor arwyddocaol, yn eich barn chi, y mae'r newidiadau ers gweithredu'r Ddeddf, ac yn enwedig yn ystod y pandemig, wedi bod i ddinasyddion?
- Pa mor arwyddocaol, yn eich barn chi, y mae'r newidiadau ers gweithredu'r Ddeddf, ac yn enwedig yn ystod y pandemig, wedi bod i'r gweithlu?